
# Datblygu’r Cwricwlwm Cymreig






















AWDURDOD CYMWYSTERAU, CWRICWLWM AC ASESU CYMRU
QUALIFICATIONS, CURRICULUM & ASSESSMENT AUTHORITY FOR WALES
accac

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Cyfeiria'r llyfryn hwn at y Cwricwlwm Cymreig pan yn cyfeirio at Ofyniad Cyffredin y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac at Gwricwlwm Cymreig pan yn cyfeirio at ddadansoddiad ysgolion o'r gofyniad o fewn eu cwricwlwm a'u hethos eu hunain.

Cyf: AC/GM/0521

ISBN: 1 86112 524 0

Pris: £5.95

Cyhoeddwyd gyntaf 2003

© Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) 2003

Gwaherddir atgynhyrchu, storio, addasu neu gyfieithu'r cyhoeddiad hwn, ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw gyfrwng, heb gael caniatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr ymlaen llaw, neu o fewn telerau trwyddedau a roir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint. Gellir atgynhyrchu darnau ohono at ddibenion ymchwil, astudio preifat, beirniadaeth neu adolygu, neu gan sefydliadau addysgol at ddibenion addysgol yn unig, heb ganiatâd, cyhyd ag y cydnabyddir hynny'n llawn.

Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn elusen a eithrir o dan Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993.

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX

Gellir archebu rhagor o gopïau o'r ddogfen hon drwy gysylltu â:

Cyhoeddiadau ACCAC, Blwch 9B, Thames Ditton, Surrey KT8 0BN
Ffôn: (0870) 242 3207 (yn Saesneg) (0870) 242 3206 (yn Gymraeg)
Fax: (0208) 957 5012 (yn Saesneg) (029) 2037 5494 (yn Gymraeg)
e-bost: info@accac.org.uk safwe: www.accac.org.uk

# Cynnwys


Cyflwyniad 2

Beth yw'r Cwricwlwm Cymreig a pham y mae'n bwysig? 4

Ble y gellir hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yng nghwricwlwm yr ysgol? 7

Dilyniant mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cymreig 13

Sut y gall ysgolion hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig? 14

Astudiaethau achos:
1 Saesneg: CA2 15
2 Saesneg: CA3 17
3 Ieithoedd Tramor Modern: CA3 19
4 Mathemateg: CA2 a CA3 20
5 Gwyddoniaeth: CA2 24
6 Gwyddoniaeth: CA4 25
7 Technoleg Gwybodaeth: CA2 26
8 Technoleg Gwybodaeth: CA3 27
9 Dylunio a Thechnoleg: CA2 28
10 Dylunio a Thechnoleg: UG/U2 29
11 Hanes: CA1 30
12 Hanes: CA3 31
13 Daearyddiaeth: CA2 32
14 Daearyddiaeth: CA3 34
15 Daearyddiaeth: CA3 36
16 Celf: CA2 37
17 Celf: CA3 38
18 Cerddoriaeth: CA2 40
19 Cerddoriaeth: CA3 41
20 Addysg Gorfforol: CA2 42
21 Addysg Gorfforol: CA3 43
22 Addysg Grefyddol: CA2 44
23 Addysg Grefyddol: CA3 45
24 Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig mewn Ysgol Arbennig: CA4 46
25 Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig mewn dosbarth meithrin 47
26 Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig mewn meithrinfa ddydd 48
27 Cydweithio i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig: CA2 49
28 Cymorth gan AALl ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm Cymreig 50
29 Hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig mewn ysgol gynradd ddinesig 51
30 Polisi ysgol gyfan ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig mewn ysgol uwchradd 53

Arolygu'r Cwricwlwm Cymreig 54

Datblygu Cwricwlwm Cymreig yn eich ysgol 57

Atodiad 1: Safweoedd defnyddiol 61

Atodiad 2: Archwiliad o gyfeiriadau penodol at y Cwricwlwm Cymreig 62

Atodiad 3: Deunyddiau a gomisiynwyd gan ACCAC ar gyfer yr ystafell ddosbarth 63

Cydnabyddiaethau 64

# Cyflwyniad



Mae'r arweiniad hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau a gynhyrchir gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) i helpu ysgolion gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ysgol diwygiedig yng Nghymru.

Mae'r cwricwlwm statudol yng Nghymru yn cynnwys holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG), Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd (AChG) a'r meysydd llafur y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer addysg grefyddol. Er bod llawer yn gyffredin rhwng y gofynion ar gyfer Cymru ac ar gyfer gwledydd eraill y DU, mae'r Gorchymyn ar gyfer Cymraeg a rhannau o'r Gorchmynion ar gyfer daearyddiaeth, hanes, cerddoriaeth a chelf yn cynnwys meysydd penodol lle mae'n ofynnol i'r athrawon addysgu am Gymru. Y tu hwnt i hynny, mae'r gofyniad statudol am y Cwricwlwm Cymreig yn rhan hanfodol o gwricwlwm ac ethos pob ysgol.

Mae Cwricwlwm Cymreig yn helpu disgyblion i ddeall a dathlu ansawdd penodol byw a dysgu yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain, i nodi eu hymdeimlad hwy eu hunain o Gymreictod ac i wir deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned leol a'u gwlad. Mae hefyd yn helpu'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o Gymru gydwladol sy'n edrych allan i'r byd, gan hybu dinasyddiaeth fydeang a diddordeb mewn datblygu cynaliadwy. Ond hyd a lled yr ymrwymiad i Gwricwlwm Cymreig sy'n pennu llwyddiant y cwricwlwm hwnnw. Dylai'r ymrwymiad hwnnw godi o sylweddoli y gall y profiad Cymreig, yn ei holl agweddau, fod yn gyfle gwerthfawr i estyn profiad addysgol pob disgybl yng Nghymru.

Yn y ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, *Y Cwricwlwm Cymreig, Dimensiwn Cymreig y cwricwlwm yng Nghymru: arfer dda mewn addysgu a dysgu* (Estyn, 2001), noda Estyn na ddatblygwyd y Cwricwlwm Cymreig ryw lawer mewn ysgolion ers cyhoeddi *Datblygu Cwricwlwm Cymreig, Papur Ymgynghorol 18* gan Cyngor Cwricwlwm Cymru yn 1993. Er bod yna gefnogaeth eang i'r syniad o gwricwlwm arbennig yng Nghymru, ceir amrywiaeth sylweddol o ran arfer, yn enwedig yn ansawdd y cynllunio rhwng rhanbarthau yng Nghymru, rhwng ysgolion ac o fewn pynciau mewn ysgolion unigol.

Er mwyn datblygu cwricwlwm o'r fath, dylai ysgolion ddarparu a defnyddio adnoddau perthnasol y mae iddynt ddimensiwn Cymreig er na chaiff lawer o adnoddau eu cynhyrchu gan gyhoeddwyr i'w defnyddio yng Nghymru yn unig, mewn marchnad fasnachol. Mae gan raglen gomisiynu ACCAC nod penodol o ddatblygu a chynhyrchu adnoddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth i gynorthwyo'r gwaith o addysgu Cymraeg a phob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg ac adnoddau dwyieithog i gefnogi'r Cwricwlwm Cymreig. Ceir manylion am hyn yn Atodiad 3 a hefyd mae'n esbonio sut y gall ysgolion gyfrannu at y broses adnabod anghenion sy'n gysylltiedig.

Nod y llyfryn hwn yw cynnig rhagor o arweiniad i helpu ysgolion:

- nodi ffyrdd o hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm ym mhob pwnc
- defnyddio Cwricwlwm Cymreig fel egwyddor trefnu ac yna'i ddefnyddio ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ysgol gyfan, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol, ac, felly, nid yn unig fel cynnwys ychwanegol i ddarparu naws Gymreig i bynciau
- datblygu ymagweddau ysgol gyfan fel bod y Cwricwlwm Cymreig yn rhan hanfodol o ethos yr ysgol.

Er mwyn gwneud hyn, mae'r llyfryn yn:

- diffinio ac yn trafod natur y Cwricwlwm Cymreig
- datgelu'r cyfleoedd ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm Cymreig ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r pynciau nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ysgolion uwchradd
- diffinio elfennau o ddilyniant yn nhermau'r Cwricwlwm Cymreig
- cynnwys astudiaethau achos sy'n dangos arfer dda mewn ysgolion mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cymreig
- amlinellu'r broses arolygu ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig
- cynnig awgrymiadau ar gyfer defnyddio'r arweiniad hwn i ddatblygu Cwricwlwm Cymreig mewn ysgolion
- cynnwys rhestr o safweoedd defnyddiol
- cynnwys gwybodaeth am ddeunyddiau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gomisiynwyd gan ACCAC
- cynnwys gwahoddiad i gyfrannu at y broses adnabod anghenion.


Yn ôl dogfen ddiweddar gan Estyn, mae disgyblion:

> 'yn gwerthfawrogi cyfleoedd i archwilio eu hymdeimlad o Gymreictod. Mae gwaith o'r math yn eu galluogi i gyfrannu at ddiwylliant sy'n esblygu mewn ffordd ddeinamig ac i ddatblygu barn hyddysg ar y grymoedd sy'n llunio Cymru.'

Nod yr arweiniad hwn yw helpu ysgolion i ddarparu cyfleoedd o'r fath.

# Beth yw'r Cwricwlwm Cymreig a pham y mae'n bwysig?

Mae Gofynion Cyffredin y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru yn nodi:



'Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion, lle y bo hynny'n briodol, i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.'

Mae'r datganiad hwn yn gynhwysol yn fwriadol a'i nod yw adlewyrchu lluosogrwydd ac amrywiaeth Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd ei ofynion yn helpu disgyblion i ddeall beth sy'n wahanol am fywyd yng Nghymru, i ddathlu amrywiaeth ac i gael gwir deimlad o berthyn.

Mae datganiad y Gofynion Cyffredin yn nodi pum agwedd y Cwricwlwm Cymreig – diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol. Bwriad y syniadau canlynol yw dangos beth y gellir ei gynnwys ymhob un o'r agweddau. Mae'r rhestrau'n amrywio o ran arddull a chynnwys. Mae rhai eitemau'n seiliedig ar bynciau; mae eraill yn gofyn am ymagweddau ysgol gyfan. Eu nod yw ysgogi syniadau a thrafodaethau mewn ysgolion.

## Diwylliannol

- Dathlu diwylliannau, ieithoedd a thraddodiadau arbennig Cymru tra'n parchu gwerthoedd diwylliannau eraill.
- Datblygu gwybodaeth am eu cymunedau'u hunain ynghyd â'u gwerthoedd a'u traddodiadau.
- Archwilio'r celfyddydau creadigol a mynegiannol yng Nghymru a'r traddodiad Celtaidd ehangach; llenyddiaeth, cerddoriaeth, celf, crefft, dawns a chwaraeon traddodiadol a chyfoes.
- Datblygu gwybodaeth am y credoau a'r arferion crefyddol a geir yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys Cristnogaeth a chrefyddau eraill, yn y gorffennol a'r presennol, a'u dylanwad ar bob agwedd ar fywyd Cymru.
- Datblygu gwybodaeth am fywyd gwleidyddol Cymru yn y gorffennol a'r presennol.
- Archwilio'r cysylltiadau rhwng Cymru, y DU, Ewrop a'r byd ehangach.

## Economaidd

- Deall y rôl sydd gan ddiwydiant ac amaethyddiaeth Cymru wrth lunio cymeriad economaidd, gwleidyddol a diwylliannol y wlad.
- Dysgu sut y gall datblygiad o ran adnoddau a thechnoleg, yn y gorffennol a'r presennol, newid bywyd yng Nghymru.
- Gwerthfawrogi'r rhan sydd gan sectorau gwahanol o'r boblogaeth ym mywyd economaidd Cymru.
- Ymweld ag enghreifftiau o weithgarwch economaidd y gorffennol a'r presennol a gwneud gwaith ymchwil arnynt.
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau busnes newydd a newid economaidd yn yr ardal leol ac yng Nghymru drwy ddefnyddio'r cyfryngau a TG.
- Deall y cysylltiadau economaidd sy'n datblygu rhwng Cymru, Ewrop a'r byd ehangach.

## Amgylcheddol

- Dysgu am y berthynas rhwng yr amgylchedd a phobl Cymru a'r effaith a gaiff hyn ar fywyd yng Nghymru heddiw ac yn y gorffennol.
- Archwilio materion cyfoes sy'n effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru a'r economi yng Nghymru, e.e. ffynonellau ynni amgen fel ffermydd gwynt.
- Dysgu am nodweddion yr amgylchedd adeiledig, yn y gorffennol a'r presennol.
- Dysgu am ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru a'r byd ehangach.
- Deall y gellir lleisio barn ar faterion fel cynaliadwyedd drwy'r broses benderfynu yng Nghymru.
- Ymweld â thirweddau amrywiol Cymru, a'u hastudio a'u gwerthfawrogi.

## Hanesyddol

- Deall sut mae bywydau a chymdogaethau wedi'u llunio gan y gorffennol, drwy ddysgu am hanes Cymru, a'i hagweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.
- Ymweld â safleoedd hanesyddol, defnyddio arteffactau, gwneud cymariaethau rhwng y gorffennol a'r presennol, a datblygu dealltwriaeth o sut y maent wedi newid dros amser.
- Dysgu am y berthynas sydd rhwng Cymru â rhannau eraill y DU, heddiw ac yn y gorffennol.
- Dysgu am gysylltiadau ag Ewrop a'r byd ehangach, heddiw ac yn y gorffennol, gan ddefnyddio amrywiaeth o raddfeydd cyfeirio – lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, Prydeinig, Ewropeaidd a'r byd.

## Ieithyddol

- Defnyddio'r iaith Gymraeg gan roi cyfle i bawb i'w dysgu a'i defnyddio.
- Cydnabod bod sawl lefel wahanol o rugl der yn y Gymraeg.
- Addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol ym mywyd yr ysgol.
- Astudio acenion a thafodieithoedd Cymru.
- Dod yn ymwybodol o Gymraeg fel iaith a'i chysylltiadau â'r Saesneg ac ieithoedd tramor modern.
- Defnyddio'r Gymraeg i greu ethos ysgol sy'n adlewyrchu safle'r ysgol fel ysgol yng Nghymru.

Gan fod cymdeithas Gymreig yn amrywiol iawn o ran natur, ni cheir un farn o beth yw bod yn Gymro/Gymraes. Mae safbwyntiau pobl yn amrywio, yn aml wedi'u lliwio yn ôl y ffordd o fyw yn eu rhanbarth penodol hwy o Gymru, a chefndir ieithyddol, diwylliannol ac economaidd y rhanbarth hwnnw. Ond mae pob disgybl yn ein hysgolion yn rhannu'r profiad cyffredin o fyw a dysgu yng Nghymru. Mae ganddynt yr hawl i gael y profiad hwn wedi'i adlewyrchu yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae'n rhaid i bob ysgol ddatblygu'n llawn y pum agwedd gyfan ar y Cwricwlwm Cymreig, pa beth bynnag yw cyfrwng y dysgu.

Oherwydd yr amrywiaeth a geir yng Nghymru, ceir ffurfiau gwahanol ar y Cwricwlwm Cymreig mewn ysgolion gwahanol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod pob ysgol yn diwallu anghenion ei chymdogaeth a'i chymuned leol. Fodd bynnag, mae angen i ysgolion gynllunio'n ofalus i sicrhau y ceir dilyniant i brofiad y disgyblion, eu bod yn adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn defnyddio pob cyfle i gyflwyno gorwelion newydd sy'n ymwneud ag amrywiaeth yr holl ddiwylliannau yng Nghymru. Gall Cwricwlwm Cymreig cael ei ddefnyddio fel egwyddor sy'n uno, sy'n helpu'r holl ddisgyblion deimlo eu bod yn perthyn ac sy'n cynyddu eu dealltwriaeth o'r wlad lle maent yn byw. Yr hyn sy'n bwysig, ym mhob achos, yw cynllunio gwaith i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgolion unigol, a chanolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion o fewn cyd-destun Cymreig.

Fodd bynnag, dylai ysgolion ochel rhag hyrwyddo darlun ystrydebol o Gymreictod. Ni fu Cymru erioed yn gymdeithas homogenaidd. Mae'r delweddau safonol o ddoliau mewn gwisg Gymreig, baneri y ddraig goch, cennin Pedr, cestyll a defaid yn werthfawr, i ryw raddau, wrth helpu i gyfleu teimlad o hunaniaeth i ddisgyblion iau. Os parheir i'w defnyddio gyda disgyblion hŷn, mae'n rhoi argraff ffug iawn o Gymru yn y byd modern.



# Ble y gellir hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yng nghwricwlwm yr ysgol?

Mae'r datganiad Gofynion Cyffredin ym mhob un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn nodi'r canlynol:

> 'Mae'r rhaglenni astudio yn cynnwys symbolau sy'n nodi cyfleoedd penodol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau hyn. Bydd athrawon yn darganfod cyfleoedd eraill wrth iddynt baratoi eu cynlluniau gwaith.
>
> Athrawon a gaiff benderfynu nifer ac ystod y fath gyfleoedd yng nghyd-destun cynllun gwaith eu hysgol.
>
> Mae cyfrifoldeb ar bob athro/athrawes i helpu pob disgybl i ddatblygu a chymhwyso'r gofynion cyffredin hyn.'

Ceir archwiliad o'r cyfleoedd hyn ar safwe ACCAC: www.accac.org.uk Mae'r archwiliad hwn yn amlygu'r datganiadau neu'r rhannau hynny o raglen astudio sydd wedi'u cysylltu'n glir â'r gwaith o ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig.

Ceir hefyd ar safwe ACCAC archwiliad o ddatganiadau sy'n gysylltiedig â datblygu'r Cwricwlwm Cymreig yn yr *Adolygiad o Feysydd Llafur Addysg Grefyddol*, y Fframweithiau ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith, a *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol*.

Fodd bynnag, ceir llawer o 'gyfleoedd eraill', yn arbennig mewn pynciau fel mathemateg, Dylunio a Thechnoleg a Thechnoleg Gwybodaeth (TG) lle nad yw'r archwiliad yn cynnig unrhyw gyfleoedd penodol; mewn pynciau nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol fel astudiaethau busnes, drama, economeg, cymdeithaseg, astudiaethau'r cyfryngau a llywodraeth a gwleidyddiaeth; ac mewn cymwysterau lefel mynediad a chymwysterau galwedigaethol a astudir yng Nghyfnod Allweddol 4. Felly, dylai athrawon chwilio am gyfleoedd perthnasol ac ystyrlon yn eu gwaith cynllunio er mwyn gosod astudiaethau disgyblion mewn cyd-destun Cymreig pryd bynnag y bo'n ddymunol, yn bosibl ac yn gynhyrchiol. Ni ddylem gymryd yn ganiataol bod Cwricwlwm Cymreig yn 'bodoli' am ein bod yn byw yng Nghymru. Oni chaiff ei gynllunio a'i roi mewn cyd-destun, gallai disgyblion golli neu gamddeall ei berthnasedd.

Un o brif ganfyddiadau adroddiad Estyn yw 'nid yw'r defnydd o TGCh a'r Rhyngrwyd i greu a rhannu adnoddau ar gyfer Y Cwricwlwm Cymreig wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar y cyfan.' Gall disgyblion ddefnyddio TGCh fel offeryn pwerus ac ysgogol i'w helpu i gyrraedd meysydd a phobl y tu allan i'w cymdogaeth uniongyrchol yng Nghymru, gan ehangu eu safbwyntiau a'u helpu i beidio bod yn gul a phlwyfol.

## Cyfleoedd ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Mewn **Cymraeg** a **Chymraeg Ail Iaith**, caiff y Cwricwlwm Cymreig ei ddatblygu drwy gydol y pwnc. Er mwyn dangos hyn, nodir y symbolau ar gornel uchaf ochr dde pob tudalen ac nid o fewn y rhaglenni astudio eu hunain. Mae'n amlwg bod yr holl waith sy'n ymwneud â dysgu Cymraeg yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig ond, fel gyda Saesneg, cyfrifoldeb yr athro/athrawes yw cynnwys gwaith sy'n ymwneud â'r agweddau hynny ar y Cwricwlwm Cymreig

nad ydynt yn rhai ieithyddol fel rhan o'r cyd-destunau a ddewiswyd er mwyn datblygu gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o'r Cwricwlwm Cymreig wrth gwrs. Gall pobl ei defnyddio i drin a thrafod y byd cyfan. Mae teledu a radio wedi ehangu'n gorwelion; er enghraifft, mae yna ohebwyr tramor sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob rhan o'r byd, gan gysylltu â siaradwyr Cymraeg sydd â golwg unigryw ar faterion cyfoes. Wrth i'r ysgolion ddefnyddio Cwricwlwm Cymreig i ehangu eu dealltwriaeth o Gymru, gallant ddefnyddio'r iaith hefyd i ehangu eu dealltwriaeth o bynciau llosg bydeang, a hynny o safbwynt hollol unigryw.

Mae'r Gymraeg yn fan cychwyn hefyd ar gyfer astudio llenyddiaeth Cymru. Mae llenorion Cymraeg o bwysigrwydd Ewropeaidd a bydeang wedi'u cydnabod ar hyd yr oesoedd, a bydd yr ysgolion am dynnu sylw at y ffaith honno wrth addysgu agweddau ar y rhaglenni astudio Cymraeg a Chymraeg ail iaith. Cyfrannodd Dafydd ap Gwilym, er enghraifft, at fudiad trwbadwriaid yr oesoedd canol a dyfodd ar gyfandir Ewrop, a hynny drwy ei ddefnydd unigryw o'r gynghanedd. Ychydig yn unig o lenorion yr ugeinfed ganrif sydd wedi bod yn fwy o feistri ar y stori fer na Kate Roberts. Mae grym traddodiad llenyddol Cymru wedi'i gydnabod yn nramâu Saunders Lewis, ac ym marddoniaeth RS Thomas, a chafodd y ddau eu henwebu ar gyfer Gwobr Nobel am Lenyddiaeth.

Bydd gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion, megis yr Urdd, eisteddfodau a phrofiadau preswyl mewn gwersylloedd fel Glan-llyn, Llangrannog a Stackpole yn eu helpu i ddatblygu eu hiaith ac i sylweddoli mor bwysig a pherthnasol yw'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Yn y rhaglenni astudio ar gyfer **Saesneg** ym mhob cyfnod allweddol, mae'n ofynnol i ddisgyblion ddarllen storïau a barddoniaeth o Gymru, gwaith awduron o Gymru sy'n ysgrifennu yn Saesneg a gwaith sydd â lleoliad Cymreig neu sy'n arbennig o berthnasol i Gymru. Ond, fel gyda Chymraeg, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu Cwricwlwm Cymreig yn y cyd-destunau a ddewisir ar gyfer gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'r rhain yn cynnwys: plant yn gwrando ar chwedl draddodiadol Gymreig ac yn ei hailadrodd/hailberfformio, fel y nodir yn Uned 5 y *Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Saesneg yn CA2*; astudio acenion a thafodieithoedd Cymru; defnyddio materion lleol a chenedlaethol fel pynciau trafod ac ar gyfer gwneud efelychiadau a chwarae rôl; neu ymweld â swyddfa bapur newydd leol i ategu gwaith sy'n ymwneud â'r cyfryngau.

Yn yr un modd, gydag **ieithoedd tramor modern**, bydd y gwaith o gynllunio gweithgareddau yn ofalus a'u rhoi yn eu cyd-destun yn galluogi disgyblion i wneud cymariaethau ystyrlon rhwng eu diwylliant hwy neu eu diwylliannau hwy eu hunain a diwylliant gwledydd a chymunedau eraill lle mae pobl yn siarad yr iaith darged – un o ofynion rhaglen astudio CA3.

Mewn **gwyddoniaeth**, ceir cyfleoedd penodol yn ymwneud yn bennaf â darganfod pethau am yr amgylchedd lleol a chenedlaethol ac â chadwraeth bioamrywiaeth o fewn amgylcheddau amrywiol Cymru. Mae defnyddio amgylcheddau lleol ac amgylcheddau Cymru yn ffordd naturiol o astudio agweddau ar fioleg, gan ymdrin â materion amgylcheddol a datblygiad cynaliadwy, a rhyngweithio â'r gymuned leol. Hefyd, gall adnoddau lleol fel diwydiant gynnig cyfleoedd i ddisgyblion archwilio enghreifftiau ymarferol

o wyddoniaeth ar waith. Gallai'r disgyblion fynd ati hefyd i astudio gwaith a dylanwad gwyddonwyr Cymru.

Mae **hanes** a **daearyddiaeth** yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig, gyda llawer ohonynt yn ofynion y rhaglenni astudio ac yn benodol i bynciau. Mae gan y rhain gysylltiadau agos a chlir â'r nodweddion diwylliannol, hanesyddol, economaidd ac amgylcheddol a restrir yn natganiad y Gofynion Cyffredin ac efallai mai'r rhain yw'r ffyrdd mwyaf amlwg o hyrwyddo Cwricwlwm Cymreig drwy addysgu pynciau. Un o'r elfennau hanfodol wrth addysgu'r ddau bwnc yw sicrhau eu bod yn berthnasol i'r disgyblion. Un ffordd o ddarparu perthnasedd o'r fath yw drwy astudio hanes a daearyddiaeth leol. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod disgyblion yn gweithio o fewn amrywiaeth o raddfeydd cyfeirio, o rai lleol i rai byd-eang, ac y gallant ddeall eu hanes a'u daearyddiaeth leol a hanes a daearyddiaeth Cymru mewn perthynas â'r cyd-destunau ehangach hyn.

Yn y rhaglenni astudio ar gyfer **celf, cerddoriaeth** ac **addysg gorfforol** ceir ffynhonnell gyfleoedd sydd yr un mor gyfoethog gan roi cyfle i ddisgyblion archwilio nodweddion diwylliannol Cymru, yn y gorffennol a'r presennol. Gyda'r pynciau yma, mae'n rhaid i ddisgyblion ddysgu am enghreifftiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o gelf, cerddoriaeth Cymru a dawns draddodiadol ac ymateb iddynt. Bydd athrawon, yn naturiol, yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn eu cymuned leol a chenedlaethol fel y gall y disgyblion archwilio'r celfyddydau creadigol a mynegiannol yng Nghymru, gan gynnwys enghreifftiau traddodiadol a chyfoes.

Nid yw'r Gorchymyn ar gyfer **mathemateg** yn tynnu sylw at gyfleoedd penodol, ond gall y cyd-destun a ddewisir ar gyfer ymchwiliadau, cyfrifiadau a gwaith datrys problemau ddefnyddio sefyllfaoedd, lleoliadau a materion sy'n berthnasol i Gymru, gan wneud y gwaith yn fwy perthnasol ac ystyrlon i'r disgyblion. Er enghraifft, mae taflenni a llyfrynnau o'r atyniadau lleol a'r ganolfan groeso leol yn ffynhonnell ddata werthfawr er mwyn gosod gwaith mathemategol mewn cyd-destun Cymreig perthnasol yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Ceir hefyd yn yr ardal leol adnoddau cyfoethog ar gyfer cyfleoedd mathemategol sy'n unigryw i Gymru. Efallai y bydd ysgolion am gyflwyno'r eirfa draddodiadol ar gyfer rhifau megis deunaw, ugain, deugain, a chyfrif o bymtheg ymlaen, ac o ugain ymlaen, er mwyn edrych ar y cysylltiad rhwng mathemateg a'r Gymraeg. Gallai cyfraniad y Cymry at fathemateg dros y canrifoedd hefyd fod yn ddolen gyswllt ddifyr rhwng mathemateg a hanes.

Ni nodir unrhyw gyfleoedd penodol ar gyfer **Dylunio a Thechnoleg** na **TG** ychwaith ond, fel ar gyfer mathemateg, gall y cyd-destunau a ddewisir ar gyfer gwaith yn y pynciau hyn helpu hyrwyddo Cwricwlwm Cymreig. Gall modelau o gestyll ac adeiladau hanesyddol Cymru, er enghraifft, ddiwallu'r gofynion sy'n ymwneud â adeileddau o fewn y rhaglenni astudio ar gyfer Dylunio a Thechnoleg yn CA1, a gall cysylltiadau â chwmni adeiladu lleol sy'n gweithio ar brojectau mawr gynnig cyfle i ddisgyblion ysgol uwchradd archwilio'r dulliau adeiladu a ddefnyddir mewn enghraifft leol go iawn. Mae TG Cyfathrebu a Thrin Gwybodaeth yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion rannu a chyfnewid syniadau a gwybodaeth mewn cyd-destun Cymreig – naill ai drwy ymchwil gan ddefnyddio TGCh i archwilio a dangos cyd-destun Cymreig, neu drwy e-bost neu gysylltiadau fideo-gynadledda gyda disgyblion mewn ysgolion eraill ledled Cymru a thu hwnt.

## Cyfleoedd mewn addysg grefyddol

Mae'r *Adolygiad o Feysydd Llafur Addysg Grefyddol* (ACCAC, 2001) yn awgrymu efallai y bydd AALl 'yn dymuno defnyddio symbolau y Gofynion Cyffredin wrth baratoi meysydd llafur addysg grefyddol diwygiedig.' Mae'n cynnig datganiadau cyd-destun/cyfle posib ar gyfer pob cyfnod allweddol sy'n cynnwys gofynion penodol sy'n hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig. Ceir y rhain ar safwe ACCAC – gweler Atodiad 2. Fodd bynnag, fel gyda phynciau eraill, cyfrifoldeb yr athro/athrawes yw nodi cyfleoedd eraill ar gyfer addysgu o fewn cyd-destun Cymreig.

## Cyfleoedd a geir o fewn pynciau nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ysgolion uwchradd

Er nad yw'r manylebau unigol ar gyfer TGAU, tystysgrifau Lefel Mynediad a phynciau galwedigaethol yn cynnwys cyfeiriadau penodol at y Cwricwlwm Cymreig, gellir hyrwyddo'r dull o addysgu'r pynciau hyn drwy gyfeirio at enghreifftiau a chyd-destunau lleol a chenedlaethol.

Mewn cyrsiau **Astudiaethau Busnes** ceir cyfle i astudio amrywiaeth o fusnesau yng Nghymru, rhai preifat a chyhoeddus, a'r cyfraniad a wnânt i'r gymdeithas leol, i'r economi cenedlaethol, ac i les pobl yng Nghymru, yn ogystal â chyfle i ymweld â hwy ac ymchwilio iddynt. Gellir gwahodd aelodau o'r gymuned leol i annerch y disgyblion a sôn am nodweddion penodol busnes yng Nghymru a'r heriau sy'n ei wynebu. Mae'r disgyblion hefyd yn dysgu gwerthfawrogi sut y gall materion amgylcheddol a materion lleol, cenedlaethol, Ewropeaidd a byd-eang eraill effeithio ar benderfyniadau a wneir gan fusnesau yng Nghymru.

Mewn **drama**, gall y disgyblion ddefnyddio cyd-destunau neu ddigwyddiadau lleol fel ysgogiad ar gyfer eu gwaith; gallent archwilio achosion ac effeithiau trychineb mewn pwll glo yn y gorffennol, er enghraifft, a chyda chymorth grŵp theatr mewn addysg leol gallent baratoi cyflwyniad dramatig ar gyfer y cyhoedd. Gyda drama hefyd gellir ymweld â theatrau lleol a chenedlaethol i weld perfformiadau proffesiynol ac i weithio gyda chwmnïau theatr.

Mewn **Economeg**, gall y disgyblion ddefnyddio cyd-destunau lleol er mwyn ymchwilio i effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ddatblygiadau a newidiadau o fewn busnes; edrych, er enghraifft, ar effeithiau economaidd agor neu gau rheilffordd neu lwybr bysiau neu effeithiau agor archfarchnad 24-awr ar gyfer gweithwyr, cwsmeriaid a busnesau'r ardal leol, neu edrych ar y berthynas newidiol rhwng cyflogwyr/gweithwyr yng Nghymru. Gall y disgyblion olrhain a dadansoddi cyfleoedd ar gyfer swyddi drwy ddarllen yr hysbysebion yn *y Western Mail*, *y Liverpool Daily Post* a phapurau lleol. Gellir cynnal 'Wythnos Fenter' i ddod â'r gymuned fusnes leol a'r ysgol ynghyd.

Wrth astudio **Llywodraeth a Gwleidyddiaeth**, anogir myfyrwyr i edrych yn feirniadol ar theori ac arfer. Disgwylir i fyfyrwyr wneud cymariaethau â digwyddiadau cyfoes. Mae'r ffaith fod llywodraeth wedi'i datganoli yng Nghymru, gyda'i goblygiadau ar gyfer gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth leol, yn cynnig digon o gyfleoedd i gymharu a chyferbynnu â llywodraeth ganolog ac â systemau llywodraethol a gwleidyddol eraill a astudir.

Mae'n amlwg bod **Astudiaethau'r Cyfryngau** yn gysylltiedig â phob agwedd ar y cyfryngau – cyhoeddi, radio, teledu a ffilm – ac yng Nghymru gellir eu hastudio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir gwneud cymariaethau rhwng papurau newydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chymharu'r dull o gyflwyno newyddion Cymru ym mhapurau newydd y DU. Gallai'r disgyblion hefyd ymweld â swyddfeydd papur newydd lleol, stiwdio animeiddio neu stiwdio deledu i ddysgu am ddulliau cynhyrchu y gallent eu hefelychu wedyn yn eu gwaith ymarferol eu hunain.

Mae gan **Teithio a Thwristiaeth** oblygiadau pwysig ar gyfer yr economi yng Nghymru. Dylai myfyrwyr gael cyfle i archwilio'r amrywiaeth o ran teithio a thwristiaeth yng Nghymru ac i ystyried eu pwysigrwydd a'u heffaith ar swyddi ac ar y tirlun. Ceir sawl cyfle i drefnu ymweliadau ac i astudio nodweddion pwysig yng Nghymru – Stadiwm y Mileniwm, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, Canolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth, cestyll Gogledd Cymru, Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, a Chanolfannau Treftadaeth fel Pwll Mawr a Pharciau Cenedlaethol. Gallai myfyrwyr gynnal arolwg gwaith maes i ddadansoddi poblogrwydd atyniad lleol, neu gallent weithio mewn timau ar ymarfer gwneud penderfyniadau i nodi manteision ac anfanteision datblygu atyniad i dwristiaid yn eu cymdogaeth eu hunain.

Mae tystysgrif Lefel Mynediad CBAC mewn **Sgiliau Personol a Chymdeithasol** hefyd yn cynnwys gofynion a all gyfrannu at Gwricwlwm Cymreig. Yn yr uned 'Fi fy hun ac Eraill', ceir cyfle i drafod hunaniaeth ddiwylliannol ac i wneud gwaith wedi ei seilio ar wasanaethau a ddarperir yn y gymuned leol. Yn yr un modd, mae unedau eraill yn gofyn i ddisgyblion archwilio cyfleusterau a hamdden yn y gymdogaeth ac, fel rhan o'r cwrs, disgwylir i'r ymgeiswyr gymryd rhan mewn gweithgaredd gwirfoddol yn eu cymuned eu hunain.

Mae **Cymhwyster Bagloriaeth Cymru** yn cynnwys cydran sy'n cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ymwneud ag amrediad o bynciau llosg cyfoes yng Nghymru, Ewrop a'r Byd. Mae'n gofyn bod gan yr ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o beth yw ystyr byw yn y Gymru gyfoes a gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Mae hefyd yn annog yr ymgeiswyr i fod yn ymwybodol o'r gydberthynas rhwng Cymru, y DU, Ewrop a'r Byd drwy gymharu a chyferbynnu profiad y Cymry â phrofiad pobl gwledydd eraill.

## Cyfleoedd o fewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith

### ABCh

Yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ceir llawer o gyfleoedd a all helpu disgyblion i ddeall natur cymunedau yng Nghymru a thu hwnt, ac i fod yn ddinasyddion gweithredol, hyddysg a chyfrifol yng Nghymru a'r byd ehangach. Mae'r Canlyniadau Dysgu ar gyfer CA1 yn pwysleisio'r angen am wybodaeth a dealltwriaeth o'r gymuned a'r amgylchedd lleol; ar gyfer CA2, maent yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol Cymru, y broses o wneud penderfyniadau democrataidd ac ymwybyddiaeth economaidd; ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4, maent yn canolbwyntio ar gymryd rhan ymarferol yn y gymuned, ar wybodaeth benodol am systemau democrataidd a datblygu

teimlad o gyfrifoldeb personol tuag at yr amgylchedd ac at ddatblygiad cynaliadwy. Gyda'r holl agweddau hyn, y dechreubwynt fydd profiadau'r disgyblion eu hunain o fewn Cymru a'u dealltwriaeth gynyddol o sut mae'r profiadau hyn yn cyfrannu at fywyd yng Nghymru a thu hwnt. Mae *Addysg Bersonol a Chymdeithasol – Canllawiau Atodol* yn cynnwys enghreifftiau o arfer dda mewn ysgolion, gan ddangos sut mae ysgolion yn defnyddio adnoddau lleol i ddatblygu sgiliau'r disgyblion mewn ffyrdd sy'n wirioneddol berthnasol i Gwricwlwm Cymreig. Ceir archwiliad o gyfeiriadau penodol at y Cwricwlwm Cymreig o fewn fframwaith ABCh ar safwe ACCAC.

## AChG ac AGG

Yn y Fframweithiau ar gyfer Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith ceir datganiadau bras o amcanion a chyfres o ganlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion yn yr ysgol uwchradd. Mae'n rhaid sefydlu'r rhain yn gadarn o fewn cyd-destun presennol Cymru. Ar gyfer AChG, mae'n hanfodol cael y wybodaeth ddiweddaraf am bosibiliadau gwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a rhaid felly sefydlu cysylltiadau agos â chyflogwyr, asiantaethau a busnesau yn y gymuned a thu hwnt i hynny. Gydag AGG, mae'n rhaid i ddisgyblion gael cymorth gan fusnesau a sefydliadau cymharol leol ar gyfer y rhan fwyaf o leoliadau profiad gwaith, er mwyn cael cymorth mentora, er mwyn rhoi mewnbwn uniongyrchol i'r cwricwlwm ac er mwyn darparu gweithgareddau y tu allan i oriau'r ysgol. Fel ar gyfer ABCh, mae'r Canllaw Atodol ar gyfer pob un yn cynnig enghreifftiau gwirioneddol o sut mae ysgolion yn defnyddio'u hadnoddau masnachol a diwydiannol lleol i gynorthwyo disgyblion. Ceir archwiliad o gyfeiriadau penodol at y Cwricwlwm Cymreig o fewn fframweithiau AChG ac AGG ar safwe ACCAC.

## Cyfleoedd o fewn y Canlyniadau Dymunol

Mae'r llyfryn, *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Ysgol Orfodol*, yn dechrau gyda chasgliad o egwyddorion sy'n diffinio addysg o ansawdd da yng Nghymru ar gyfer plant o dan bump oed. Un o'r egwyddorion hynny yw bod yr addysg:

> 'yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau sy'n arwain plant ifanc ddod at ymwybyddiaeth o hynodrwydd Cymru, ei hiaith a'i diwylliant'.

Mae'r canllawiau sy'n dilyn yn dangos bod llawer o gyfleoedd i blant o dan bump oed ddysgu am Gwricwlwm Cymreig drwy'r cyd-destunau a ddewisir ar gyfer eu gweithgareddau. Gallant ddysgu pethau fel lliwiau a rhifau yn Gymraeg ac yn Saesneg, gallant glywed rhai o storïau a chwedlau Cymru, ymweld â siopau a llefydd eraill yn eu cymdogaeth a dysgu am swyddi pobl sy'n eu helpu yn y gymuned. Bydd profiadau o'r fath yn helpu'r plant ifanc hyn i ddatblygu teimlad o hunaniaeth a'u helpu i ddeall mwy am y lle y maent yn byw ynddo.

Ceir y datganiad llawn sy'n ymwneud â dimensiwn Cymreig y Canlyniadau Dymunol ar safwe ACCAC.

# Dilyniant mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cymreig

Mae angen i ysgolion sicrhau bod disgyblion yn datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru yn gynyddol drwy gydol cyfnod eu haddysg. Mae hyn yn gofyn am gynllunio gofalus ar draws cwricwlwm yr ysgol gyfan ym mhob cam ac am rannu gwybodaeth ar adegau trosglwyddo. Os na fydd cynllunio o'r fath yn digwydd, mae perygl y bydd profiadau disgyblion yn mynd yn ailadroddol a gall hynny arwain at ddiffyg diddordeb a chymhelliant.

Gall disgyblion ddangos dilyniant mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cymreig mewn amryw o ffyrdd cyffredinol:

- dysgu am ddiwylliannau Cymru, gan ddechrau gyda'u traddodiadau eu hunain a dod yn gynyddol ymwybodol o amrywiaeth cyfoethog y diwylliannau o fewn y Gymru fodern a thu hwnt
- cyfrannu mwy at eu cymuned leol a chenedlaethol
- archwilio'r celfyddydau creadigol a mynegiannol yng Nghymru, o'r lleol i'r cenedlaethol, yn draddodiadol ac yn gyfoes, a chyfrannu mwy atyn nhw
- symud o'r cyfarwydd i ystod mwy anghyfarwydd o gyd-destunau y tu allan i'w profiad personol eu hunain
- symud o'r diriaethol, fel gwybodaeth am eu cymdogaeth eu hunain neu astudio arteffactau penodol, i gysyniadau mwy haniaethol ynghylch safle a dylanwad Cymru yn Ewrop a'r byd ehangach
- cynyddu eu dealltwriaeth o'r sefyllfa economaidd yng Nghymru, gan ddefnyddio geirfa briodol yn gynyddol gywirach a dangos gallu cynyddol i gasglu tystiolaeth, i nodi pwyntiau allweddol, i wneud cyffredinoliadau ac i ddod i'w casgliadau eu hunain
- cynyddu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â datblygiad cynaliadwy, o'r lleol i'r byd-eang, ac o'r berthynas gymhleth rhyngddynt
- dysgu am y gorffennol, a chwestiynu a gwerthuso digwyddiadau ac agweddau'r gorffennol er mwyn asesu pa mor berthnasol ydyw i'r presennol. Hefyd, meddu ar rywfaint o syniad o sut y gallent ddefnyddio'r hyn y maent yn ei wybod i lunio'r dyfodol
- cynyddu eu dealltwriaeth o gefndir materion cyfoes sy'n effeithio arnynt, fel rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyflwyno Cymraeg fel rhan orfodol o'r cwricwlwm 14–16 a phwysigrwydd dwyieithrwydd yn y cyfryngau ac mewn cymdeithas yn gyffredinol yng Nghymru
- cynyddu eu rhuglder yn yr iaith Gymraeg
- dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'u hunaniaeth a dealltwriaeth o'u Cymreictod eu hunain
- ym mhob agwedd, symud o ymwybyddiaeth gyffredinol at ganolbwyntio, ymateb yn gadarnhaol ac ymgymryd â materion gyda'r disgyblion yn dangos mwy o ymrwymiad ac yn cymryd rhan fwy gweithredol.

Ym mhob un o'r enghreifftiau hyn bydd y manylion yn dibynnu ar y dewis o gyd-destunau. Mae angen i athrawon fod yn ymwybodol o'r hyn a gyflawnwyd mewn blynyddoedd/cyfnodau allweddol/ysgolion blaenorol er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer parhad a dilyniant.

# Sut y gall ysgolion hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig?

Yn yr astudiaethau achos canlynol ceir enghreifftiau bras o arfer dda mewn ysgolion yng Nghymru. Maent yn cynnig rhai syniadau i athrawon sydd eisiau nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu Cwricwlwm Cymreig mewn pwnc neu ysgol.

Ceir gwybodaeth bellach i gynorthwyo ysgolion yn Atodiad 1 ac ar safwe ACCAC.

## Gwahoddiad i ysgolion

Anfonwch unrhyw astudiaethau achos perthnasol eraill at ACCAC gan fod yr Awdurdod yn bwriadu ychwanegu rhagor o enghreifftiau at y safwe yn y dyfodol.





## Gweithio gyda storïwr

Cyflogwyd storïwr proffesiynol gan ysgol gynradd yn y Gogledd i dreulio diwrnod gyda disgyblion Blwyddyn 6 yn edrych ar rai o chwedlau gwerin Cymru. Trefnwyd yr ymweliad drwy gynllun yr Academi *Awduron ar Daith* (Ffôn: 029 2047 2266; www.academi.org). Mae'r sesiynau'n cynnwys detholiad o chwedlau'n cael eu hadrodd gan y storïwr; gweithdai i ystyried a datblygu agweddau ar grefft adrodd stori; a'r disgyblion yn cyflwyno'u storïau eu hunain.

Prif amcanion y project oedd meithrin sgiliau llafar y disgyblion a'u hyder wrth siarad â chynulleidfa gyfarwydd; gwella'u dealltwriaeth o strwythurau naratif a 'llif' storïau; ac yna gweld a allai dealltwriaeth y disgyblion o naratif a'r traddodiad llafar gael effaith ar eu storïau ysgrifenedig eu hunain – a hyn oll o fewn cyd-destun Cymreig cryf.

Ar ôl i'r storïwr dorri'r garw gyda gweithgareddau cynhesu, cyflwynodd fersiynau o chwedl sy'n ymwneud â tharddiad enw lle lleol a phennod o'r *Mabinogi*. Roedd y disgyblion yn amlwg yn mwynhau sgiliau'r storïwr, a chafwyd ymateb da ganddynt hefyd i'r cefndir, y tirlun, yr enwau lleoedd a'r cymeriadau cyfarwydd a geid yn y chwedlau.

Roedd y gweithgareddau a'r trafodaethau a gafwyd yn y gweithdy yn canolbwyntio ar arwyddocâd patrymau a modelau wrth gyflwyno chwedl yn effeithiol, ac yn enwedig ar bwysigrwydd dilyniant mewn naratif ag adeiladwaith da. Llwyddodd y disgyblion i adnabod nodweddion fel:

- llefaru'r geiriau'n glir
- cyflymder a mynegiant
- defnyddio ystumiau i ategu ystyr ac i bwysleisio
- gwahanol lais neu acen i bob cymeriad
- pwysigrwydd trefn a llif digwyddiadau, a'u canlyniadau
- yr angen am ddiweddglo cryf.


Anogwyd y disgyblion i dynnu ar eu hatgofion a'u profiadau eu hunain i ddwyn i gof ac ailadrodd digwyddiadau neu achlysuron digrif neu arbennig yn eu bywydau, ac i lunio eu fersiynau eu hunain o'r 'chwedlau' hyn. Cafodd llawer ohonynt eu cyflwyno'n frwd a'u gwerthfawrogi.


Yn y gwersi dilynol, defnyddiodd athrawes Blwyddyn 6 y nodweddion chwedleua cryf a welwyd yn y gweithdy gan annog ei disgyblion i weld pa rai sy'n berthnasol i storïau ysgrifenedig. Sylweddolodd y disgyblion fod nodweddion megis ystum ac arddull bersonol; cyflymder y traethu; goslef ac acen; a mynegiant pryd a gwedd yn unigryw i'r grefft lafar. Er hynny, llwyddwyd hefyd i enwi nodweddion eraill a allai gryfhau eu storïau ysgrifenedig eu hunain. Roedd y rhain yn cynnwys:


- dychymyg wrth ddewis geirfa, a chynnwys ymadroddion a darnau disgrifiadol
- sefydlu'r cefndir a'r cymeriadau'n gynnar
- defnyddio deialog yn ddoeth
- gosod y digwyddiadau mewn trefn gall
- defnyddio cymariaethau a throsiadau yn ofalus, ac nid yn ôl fformwla
- effaith diweddglo cryf sydd wedi'i saernïo'n dda.


Ailedrychir ar y nodweddion hyn bob tro y bydd darn o waith naratif yn cael ei baratoi a'i gyflwyno, ac mae hyn wedi arwain at welliant cyson yn ansawdd gwaith llawer o'r disgyblion. Fel hyn y mae'r athrawes yn crynhoi effaith y project:


> 'Nid yn unig y mwynhaodd y disgyblion ymweliad y storïwr, ond mae'r gweithgareddau a'r gwaith dilynol yn y dosbarth hefyd wedi arwain at welliant pendant yn eu cyrhaeddiad o safbwynt ysgrifennu'.






## Dewis testunau i ategu Cwricwlwm Cymreig

Fel rhan o'i gwaith adolygu cynllun gwaith CA3, penderfynodd un ysgol gyfun yn y De y byddai'n canolbwyntio yn benodol ar gynnwys testunau gan awduron Cymreig neu destunau gyda chefndir Cymreig. Penderfynodd yr athrawon osod pwyslais arbennig ar farddoniaeth ym Mlwyddyn 7, storïau byrion ym Mlwyddyn 8 ac ar hunangofiant ym Mlwyddyn 9. Ar yr un pryd, y bwriad oedd codi nifer y nofelau a'r blodeugerddi Cymreig a fyddai ar gael i'r disgyblion ar gyfer eu gwaith darllen ehangach. Dewiswyd amrywiaeth o destunau ar gyfer y llyfrgell ac ar gyfer blychau llyfrau'r dosbarthiadau, drwy gyfeirio at gatalogau Cyngor Llyfrau Cymru, a chyhoeddwyr fel Pont Books a Seren. Dilynwyd argymhellion ac awgrymiadau cydweithwyr mewn ysgolion eraill ac yn *English in Wales*, y cylchlythyr rheolaidd a gyhoeddir gan Uned Iaith Genedlaethol Cymru, CBAC (Ffôn: 029 2026 5007; www.cbac.co.uk).

O ran barddoniaeth, prynwyd setiau o ddwy flodeugerdd: *The Poet's House*, gol. Jude Brigley (Pont Books, 2000) a *The Animal Wall and other poems* gan Gillian Clarke (Pont Books, 1999). (Mae'r ddwy flodeugerdd ar gael o Wasg Gomer. Ffôn: 01559 362371, www.gomer.co.uk)

Cafwyd bod y cyntaf o'r rhain yn cynnig amrediad o waith hygyrch gan awduron Cymreig hen a newydd, a'r gwaith hwnnw yn sicr yn ateb meini prawf Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer dewis testunau; hynny yw cerddi sy'n cynnwys amrediad o ffurfiau ac arddulliau, yn tynnu ar draddodiadau llafar a llenyddol ac yn defnyddio iaith mewn ffyrdd dychmygus, cryno a gwreiddiol.

Roedd blodeugerdd Gillian Clarke yn asio'n dda â gwaith y disgyblion wrth ddarllen *Griffin's Castle* gan Jenny Nimmo (Methuen Children's Books, 1995), nofel wedi'i gosod yng Nghaerdydd sydd hefyd yn crybwyll wal Castell Caerdydd sydd wedi'i haddurno ag anifeiliaid. Roedd y cefndir lleol yn ychwanegu at apêl y cerddi a'r nofel i ddisgyblion Blwyddyn 7, a llwyddwyd i gynnal eu diddordeb drwy edrych ar themâu a thraddodiadau ehangach yn y casgliad o gerddi.

Roedd gan yr ysgol setiau o storïau byrion eisoes, gan gynnwys *Sliding* gan Leslie Norris ac *A Child's Christmas in Wales* a storïau eraill gan Dylan Thomas. Serch hynny, roedd ganddynt gynlluniau i ychwanegu setiau o *The Hare and Other Stories* gan Catherine Fisher (Pont Books, 1994), a *The Blue Man*, gol. Christine Evans (Pont Books, 1995). Bu llyfryn yr athrawon sy'n cyd-fynd â *The Blue Man* yn ddefnyddiol fel ffynhonnell syniadau, ymdriniaethau ac adnoddau.

Yn y ddau gasgliad cafwyd cydbwysedd bywiog o realaeth gyfoes a ffantasi a oedd yn cysylltu â chwedlau i'w darllen ym Mlwyddyn 8. Mae gan lawer o'r storïau ymdeimlad cryf o le, a chefndir Cymreig cyfarwydd, ac mae eraill yn edrych yn fanylach ar gymeriad a pherthnasoedd. Gwelai'r disgyblion lawer i uniaethu ag ef yn y storïau mwy modern sydd yn aml yn canolbwyntio ar dyfu yng Nghymru, a chawsant flas hefyd ar y rhai sy'n tynnu ar draddodiad a chwedloniaeth.

Er mwyn datblygu'r casgliad o waith Cymreig a ysgrifennwyd yn Saesneg a ddarllenir ym Mlwyddyn 9, mae'r adran Saesneg wedi datblygu uned waith yn seiliedig ar hunangofiant. Mae hon yn defnyddio darnau estynedig o *Ash on a Young Man's Sleeve* a *There was a Young Man from Cardiff*, gan Dannie Abse, *Private Faces* gan Siân Phillips, a *This Time Next Week* gan Leslie Thomas. Mewn dwy flodeugerdd arall (*A Book of Wales*, gol. Meic Stephens, Dent, 1987, a *Parachutes and Petticoats, Welsh women writing on the Second World War*, gol. Leigh Verrill-Rees a Deirdre Beddoe, Honno, 1992) cafwyd deunydd gan awduron fel Dylan Thomas, Emyr Humphreys a Gwyn Thomas.

Drwy astudio gwaith o'r fath, mae'r disgyblion yn dod i ddeall sut mae anecdotau a phrofiadau personol, o ymhelaethu arnynt, eu hestyn a'u cyflwyno'n ddychmygus, yn cynnig deunydd cyfoethog a difyr sy'n ennyn diddordeb y darllenydd. Mae'r disgyblion wedi dod i werthfawrogi portreadau dilys ac argyhoeddiadol o amserau a digwyddiadau y tu allan i'w profiad hwythau ac o gyfnodau gwahanol yn hanes diweddar Cymru.



**BARA BRITH**
**(Un gâteau aux fruits secs)**

INGRÉDIENTS

une tasse de fruits secs
une tasse de sucre
une tasse d'eau
soixante-quinze grammes de margarine
deux tasses de farine
une cuillère de levure
un œuf battu

Température du four: 180°C

1. Mettez les fruits secs, le sucre, l'eau et la margarine dans une casserole et faites bouillir pendant trois minutes.
2. Laissez refroidir le mélange.
3. Ajoutez la farine, la levure et l'œuf battu.
4. Mettez dans un moule à gâteau graissé et tapissé de papier sulfurisé.
5. Faites cuire pendant environ une heure et quart et une heure et demie.
6. Laissez refroidir sur une grille.
7. Découpez en fines tranches, beurrez-les et servez.

## Gwneud cysylltiadau diwylliannol ac ieithyddol rhwng Ffrangeg a Chymraeg

Drwy ei chynllun gwaith ar gyfer Ffrangeg, mae'r adran ieithoedd tramor modern yn yr ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg hon yn sicrhau bod cyfleoedd penodol ar gael i wneud cymariaethau ieithyddol rhwng Cymraeg a Ffrangeg, o ran strwythurau a geirfa. Llwydda hefyd i amlygu cymariaethau diwylliannol gyda chymunedau dwyieithog tebyg yn Llydaw ac mae'n defnyddio Ffrangeg i archwilio agweddau eraill ar fywyd yng Nghymru. Mae'r athrawon wedi datblygu ystod o weithgareddau sy'n galluogi disgyblion i gymharu eu diwylliant a'u hiaith eu hunain ag iaith a diwylliant Ffrainc a Llydaw.

O ddechrau CA3, pwysleisir cymariaethau ieithyddol. Yn Blwyddyn 7 nodir y tebygrwydd a geir mewn enwau fel *Guillaume* a *Gwilym*, *Marc* (yn y ddwy iaith), *Marie* a *Mari* a *Catherine* sy'n cael ei ynganu'n debyg i *Catrin*. Gwneir cymariaethau achlysurol hefyd ar ddechrau'r cam hwn o ddysgu Ffrangeg ac mae'n cynnwys rhifau, misoedd y flwyddyn a geirfa arall debyg. Er enghraifft, mewn rhifau Ffrangeg, mae'r strwythur *quatre-vingts* yr un fath â'r Gymraeg, *pedwar ugain*, ac mae'n parhau *pedwar ugain a deg*, fel *quatre-vingt-dix*. Pwysleisir nodweddion strwythurol tebyg sy'n cynorthwyo'r disgyblion wrth ddysgu strwythurau Ffrangeg newydd hefyd: yn Gymraeg mae enwau yn wrywaidd ac yn fenywaidd, ac mae'r ansoddeiriau'n gweithio yn yr un modd, ac mae ganddynt drefn debyg i'r Gymraeg.

Wrth astudio'r thema bywyd ysgol yn Ffrangeg, mae'r disgyblion yn cymharu Cymru a Ffrainc, gan gyfeirio at DIWAN, yr ysgolion Llydaweg sy'n cyfateb i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r thema bwyd a diod yn cynnwys gweithgareddau lle mae'r disgyblion yn disgrifio bwydydd Cymreig traddodiadol yn Ffrangeg ac yn ysgrifennu rysetiau ar gyfer pice bach a bwydydd eraill ar gyfer eu ffrindiau Ffrangeg.

Lleolir yr ysgol gyfrwng Cymraeg hon mewn tref fechan sydd wedi'i gefeillio gyda thref fechan yng ngogledd Llydaw. Bu person ifanc o'r ardal yno am flwyddyn ac fe drefnwyd yr ymweliad gan yr adran efeillio. Mae'r person wedi ymweld â'r ysgol ers hynny i weithio gyda'r disgyblion a chodi ymwybyddiaeth o gysylltiadau Celtaidd y ddwy ardal.

Nid astudiaeth benodol yw'r adran sy'n dilyn, ond yn hytrach gasgliad o syniadau sydd wedi'u defnyddio mewn amrywiaeth o ysgolion yn CA2 a CA3 i addysgu mathemateg mewn cyd-destun Cymreig. Mae'r enghreifftiau'n dangos sut y gall gwybodaeth o atyniadau/digwyddiadau lleol ac o daflenni twristaidd fod yn sylfaen ar gyfer cyfrifo, datrys problemau a gwaith ar gyflwyno a dehongli data.

### Costau a datrys problemau: Ymweld â Rali Network Q yng Nghaerdydd

| Prisiau Tocynnau | Oedolyn | Plentyn | Plant o dan 8 oed |
|---|---|---|---|
| Prif Eisteddfan | £30 | £22.50 | £15 |
| Maes | £15 | £7.50 | Am ddim |

**CA2**

Faint fyddai'r gost i'r grwpiau canlynol ymweld â Rali Network Q?

- Un oedolyn a dau blentyn (un plentyn chwech oed) sydd eisiau tocynnau i'r maes.
- Dau oedolyn a dau blentyn 10 oed sydd eisiau tocynnau yn y Brif Eisteddfan.

**CA3**

- Mae grŵp o oedolion a phlant (i gyd dros wyth oed) yn bwriadu ymweld â Rali Network Q. Rhyngddyn nhw mae ganddyn nhw £200 i'w wario ar docynnau. Cyfrifwch yr holl gyfuniadau gwahanol o oedolion a phlant a allai ymweld â'r rali. Defnyddiwch gymaint o'r arian â phosibl. (Er enghraifft, os oes gennych £10 yn weddill, yna gallai un plentyn gael tocyn i'r maes.)

### Cwblhau a darllen tablau: Canolfannau Ymwelwyr y Comisiwn Coedwigaeth

| | Parcio am Ddim | Safle Picnic | Llwybrau Cerdded | Llwybrau Beicio | Cyfeiriannu |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Stablau, Coedwig Gwydyr | ✔ | | ✔ | | |
| Coed y Brenin | | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Bwlch Nant yr Arian | | | | | |
| Garwnant, Bannau Brycheiniog | | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Afan Argoed | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Canolfan Goedwig Cwmcarn | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ |

**CA2**

- Ym Mwlch Nant yr Arian, mae yna lwybrau cerdded, safle picnic, cwrs cyfeiriannu a rhaid talu am barcio. Cwblhewch y tabl hwn i ddangos hyn.
- Dewch o hyd i ganolfan ymwelwyr lle rydych yn medru parcio am ddim ond lle nad oes llwybr beicio yno.

## Gwerth lle a rhoi trefn ar rifau

**Uchder pegynau ym Mannau Brycheiniog**

| Pegwn | Uchder mewn metrau |
|---|---|
| Allt-Lwyd | 645 |
| Bryn | 561 |
| Corn Du | 873 |
| Craig Pwllfa | 763 |
| Craig y Fan-ddu | 678 |
| Cribin | 795 |
| Duwynt | 824 |
| Fan Big | 598 |
| Pant y Creigiau | 565 |
| Pen y Fan | 886 |
| Twyn Mwyalchod | 2089 |
| Y Gyrn | 613 |

**Pellter llwybrau cerdded hir**

| Llwybr | Pellter mewn cilomedrau | Pellter mewn milltiroedd |
|---|---|---|
| Llwybr Clawdd Offa | 285 | 177 |
| Llwybr Arfordir Sir Benfro | 299 | 186 |
| Llwybr Glyndwr | 212 | 132 |
| Llwybr Dyffryn Gwy | 144 | 230 |
| Llwybr Dyffryn Dyfi | 172 | 108 |
| Llwybr Gogledd Cymru | 78 | 48 |
| Llwybr Cambria | 440 | 274 |
| Llwybr Dyffryn Wysg | 80 | 50 |
| Llwybr Dyffryn Hafren | 338 | 210 |

### CA2

- Mae un o'r uchderau yn anghywir. Beth sy'n anghywir? Beth yw'r uchder cywir yn eich barn chi? (Yr ateb cywir yw 642m – mae plant lleol yn gwybod mai Pen y Fan yw'r pegwn uchaf.)
- Rhowch y pegynau yn eu trefn o ran uchder, gan ddechrau â'r uchaf.
- Mae camgymeriad yn y tabl pellterau. Beth yw'r camgymeriad?
- Rhowch y llwybrau yn eu trefn o ran pellter, gan ddechrau â'r llwybr byrraf.

### CA3

- Cyfrifwch uchder cymedrig pegynau Bannau Brycheiniog. (Mae un o'r uchderau yn anghywir. Beth ddylai'r uchder fod, yn eich barn chi?)
- Cyfrifwch hyd gymedrig y llwybrau cerdded hir, mewn cilomedrau ac mewn milltiroedd.

## Dangos data a gwybodaeth mewn tabl: Parciau a Gerddi Cymru

### CA3

Darllenwch am barciau a gerddi Cymru isod a rhowch y wybodaeth mewn tabl. Edrychwch ar yr holl wybodaeth sydd ar gael cyn penderfynu beth i'w gynnwys yn y tabl. Yna atebwch y cwestiynau.

**Plas Brondanw, Gwynedd**
Ar agor bob dydd drwy gydol y flwyddyn, 9a.m.–5p.m. Oedolion £1.50, plant 25c.

**Portmeirion, Gwynedd**
Ar agor bob dydd drwy gydol y flwyddyn, 9.30a.m.–5.30p.m. Oedolion £4.50, plant £2.25. Plant o dan bump oed am ddim. Teulu £11. Caniateir cŵn ar denynnau. Addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Lluniaeth ar gael.

**Gerddi Bodnant, Conwy**
Ar agor bob dydd 18 Mawrth–31 Hydref. 10a.m.–5p.m. Oedolion £5, plant £2.50. Aelodau o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac RHS am ddim. Lluniaeth ar gael.

**Plas Newydd, Sir Ddinbych**
Ar agor bob dydd 1 Ebrill–31 Hydref. 10a.m.–5p.m. Oedolion £2.50, plant £1.25.

**Castell y Waun, Wrecsam**
Ar agor bob dydd 29 Mawrth–20 Hydref, heblaw dydd Llun a dydd Mawrth. 11a.m.–6p.m. Gerddi £2.80 i oedolion, £1.40 i blant, aelodau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ddim. Addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Lluniaeth ar gael.

Defnyddiwch eich tabl i ateb y cwestiynau canlynol.

- Faint fyddai'r gost i un oedolyn a dau blentyn ymweld â Phlas Brondanw?
- Mae teulu o ddau oedolyn a dau blentyn, un mewn cadair olwyn, eisiau ymweld â gardd am gost mynediad sy'n llai na £20. Does dim gwahaniaeth ganddyn nhw ba mor bell y mae'n rhaid iddyn nhw deithio. Does dim ci ganddyn nhw, ond bydden nhw'n hoffi cael lluniaeth. Pa erddi y gallen nhw eu dewis?
- Lluniwch rai o'ch cwestiynau eich hun.


## Calendrau

Nid yw'r parciau a'r gerddi canlynol ar agor bob dydd:

**Parc Dinefwr, Sir Gaerfyrddin**
Ebrill–Hydref. Bob dydd heblaw dydd Mawrth a dydd Mercher.

**Gerddi Castell Pictwn, Sir Benfro**
Ebrill–Hydref bob dydd. Ar gau ar ddydd Llun ac eithrio Gwyliau'r Banc.


**Gerddi Castell Upton, Sir Benfro**
Ebrill–Hydref. Bob dydd heblaw dydd Sadwrn.



**Llanerchaeron, Ceredigion**
Ebrill–Hydref, dydd Iau i ddydd Sul, a dydd Llun ar Wyliau'r Banc.

**Neuadd Glansevern, Sir Drefaldwyn**
Mai–Medi, ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn.

**Erddig, Wrecsam**
Mawrth–Hydref, bob dydd heblaw dydd Iau a dydd Gwener.



### CA2
- Lluniwch dabl i ddangos y wybodaeth hon.
- Lluniwch galendr i ddangos ar ba ddyddiau y mae'r gerddi ar agor yn ystod mis Medi 2003. (Trafodwch y ffyrdd posibl o ddangos y wybodaeth hon gyda'r disgyblion.)


### CA3
- Lluniwch dabl i ddangos y wybodaeth hon.
- Lluniwch galendr i ddangos ar ba ddyddiau y mae'r gerddi ar agor yn ystod mis Medi 2003. (Gadewch i'r disgyblion lunio eu dulliau eu hunain o ddangos y data.)



Mae rhai ysgolion ac AALl wedi datblygu llwybrau mathemateg o amgylch atyniadau ac ardaloedd lleol. Mae rhai atyniadau i ymwelwyr, er enghraifft yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol, wedi cynhyrchu pecynnau o weithgareddau mathemategol perthnasol.

Mae nifer o safweoedd hefyd yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol. Er enghraifft, mae www.gwybodiadur.co.uk yn dangos amrywiaeth o batrymau Cwilt Cymreig y gellid eu defnyddio i drafod cymesuredd yn CA3 mewn mathemateg neu decstilau.





## Project gardd ysgol gynradd

Defnyddiodd yr ysgol gynradd hon brojectau gardd yn aml fel ffordd o addysgu a dysgu yn y cwricwlwm.

Nid oedd y tir o amgylch yr ysgol wedi'i ddatblygu'n ddigonol ac nid oedd yno unrhyw amrywiaeth o ran cynefinoedd naturiol ac, o ganlyniad, nid oedd llawer o anifeiliaid a phlanhigion yno. Bu disgyblion o Flynyddoedd 3 i 6 yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio, dylunio ac adeiladu gardd ger yr ysgol. Defnyddiwyd sgiliau rhifol a TG wrth ddylunio, archebwyd deunyddiau gan gyflenwyr lleol a manteisiwyd ar yr arbenigedd yn eu cymuned.


Ymchwiliwyd i ddyluniadau Mondrian a'u defnyddio wrth ddylunio'r ardd, ac adeiladwyd sgwariau rhif yn rhai o'r waliau. Dysgwyd am fathau o bridd a'r planhigion a fyddai'n addas, a pha fath o blanhigion sy'n denu mathau gwahanol o fywyd gwyllt. Hefyd astudiwyd yr anifeiliaid a oedd yn bresennol cyn ac ar ôl i'r planhigion gael eu sefydlu.


Defnyddiodd yr athrawes yr ardd fel symbyliad ar gyfer edrych ar y newidiadau yn nhirlun Cymru ac ar bwnc llosg cyfoes, sef datblygu cynaliadwy. Gwnaeth y plant gofnodion lliwgar o'u gwaith yn yr ardd, wedi'u cydblethu â thestun hanesyddol am Gymru gan Theophilus Evans, a storïau am ei fywyd.


Mae yna gynlluniau ar droed i ddatblygu darn arall o dir i gynnwys dŵr sy'n rhedeg a thyrbin gwynt i yrru generadur trydanol bach. Mae'r ysgol yn awyddus i roi sylw i bryderon lleol a chenedlaethol ynghylch defnyddio generaduron gwynt mewn trafodaeth gyda disgyblion am yr amgylchedd a byw'n gynaliadwy.

Defnyddiodd yr ysgol ei gwaith ar 'Bethau Byw' i astudio planhigion a'r gwaith o wasgaru hadau, gan ymweld â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i weld sut mae planhigion yn tyfu, beth yw pwrpas eu gwahanol rannau a sut mae'r hadau'n gwasgaru. Roedd y staff yn yr ardd wedi darparu'r taflenni gwaith perthnasol ac roedd y disgyblion yn medru darganfod yr atebion i gwestiynau fel 'Sut mae newid yn yr amodau tyfu yn effeithio ar dwf planhigion?', 'Beth yw enwau prif rannau blodyn?' a 'Sut mae hadau'n gwasgaru?'

Yn ystod eu hymweliad, roeddent hefyd wedi cyfeirio at blanhigion sy'n frodorol i Gymru, ac wedi ymweld ag arddangosfa Meddygon Myddfai gan geisio cymharu a chyferbynnu eu hamgylchedd nhw â'r un a geir yn y Tŷ Gwydr.






## Cynhyrchu trydan

Mae ysgol uwchradd yn y Canolbarth wedi cynhyrchu uned waith sydd wedi'i seilio ar gyflwyniad PowerPoint. Roedd rhagymadrodd y cyflwyniad yn nodi pa ganran sy'n cael ei defnyddio ledled y byd o ynni adnewyddadwy ac ynni anadnewyddadwy. Gellid cymharu hyn â'r ffigurau ar gyfer Cymru yn unig.

Ar ôl sefydlu cysyniadau ynghylch sut mae tyrbinau a generaduron yn gweithio, dangosodd y cyflwyniad ddiagramau ynni o wahanol fathau o orsafoedd pŵer. Roedd yr ysgol wedi datblygu ei system ei hun o symbolau i ddangos storio a throsglwyddo ynni.

Bob tro y byddai'r dosbarth yn trafod gorsaf bŵer, byddai enghraifft o'r math hwnnw o orsaf yn cael ei roi. Yng Nghymru yr oedd yr holl enghreifftiau. Ystyriodd y disgyblion fanteision ac anfanteision pob ffordd o gynhyrchu trydan.

Pryd bynnag y gellid, nodwyd dolenni cyswllt â safweoedd defnyddiol yng Nghymru a chafwyd aml i gyfeiriad at waith y Ganolfan Dechnoleg Amgen, Machynlleth. A dweud y gwir, mae disgyblion o'r ysgol yn ymweld â'r Ganolfan bob blwyddyn i edrych ar wahanol ffyrdd o ddefnyddio adnoddau ynni adnewyddadwy.

Roedd yr enghreifftiau a gafwyd yn y cyflwyniad mor gyfoes â phosibl, megis y paneli gwres haul yn nhoeon y tai newydd a welir isod.

## Cofnodi profiad

Yn yr astudiaeth achos hon, gweithiodd disgyblion ysgol gynradd gyda CADW pan oeddynt yn datgloddio'r tŷ hir Cymreig yng nghaeau'r persondy ger Crughywel. Mae'r math hwn o saernïaeth yn unigryw i Gymru ac felly mae o ddiddordeb arbennig. Mae'r safle'n agos at yr ysgol ac ymwelodd grwpiau amrywiol o ddisgyblion â'r safle yn ystod cyfnod y datgloddio. Astudiwyd agweddau ar fywyd yn eu hardal yn y gorffennol, archwiliwyd arteffactau a dysgwyd am eu defnydd, yn ogystal â thrafod yr amgylchedd adeiledig, yn y gorffennol a'r presennol.

Defnyddiodd y disgyblion gamera digidol yr ysgol i gofnodi ymweliad Blwyddyn 5 â'r safle, a'u dangos yn cyfrannu at weithgareddau gwahanol yno. Wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol, llwythwyd y delweddau digidol ar gyfrifiadur. Buont yn ysgrifennu am eu hymweliad, gan ddefnyddio prosesydd geiriau a delweddau wedi'u mewnosod o'r ddisg galed i'w gwaith ysgrifenedig, gan gyfuno testun a delweddau.

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos sut y mae'r defnydd o TG wedi gwella'r ffordd y mae'r disgyblion yn cyflwyno'u gwaith.


Visit to Persondy Fields Archaeological site.

We visited the archaeological site at Persondy Field which is just over the road from school.


At the site we were told that the field held the remains of two long houses. We were shown the remains of one long house. The ground inside the long houses had been levelled with stones. People and animals lived inside the house. We also saw remains of field walls. The fields were between the two houses.

We made sketches of finds from other sites- a water bottle, or costrel, and a beer jug.

We used a surveying grid to record what we saw in the trench.

We were allowed to help with the excavation in trench PF1. The second trench was called PF2. PF stands for Persondy Field.




## Diogelwch ar Fynyddoedd Cymru

Daw'r astudiaeth achos hon o ysgol lle mae'r disgyblion yn cofrestru ar gyfer y cymhwyster Sgiliau Allweddol mewn Technoleg Gwybodaeth ar ddiwedd Blwyddyn 9. Cynhyrchwyd y gwaith gan ddisgyblion Blwyddyn 9 ar gyfer eu portffolio o waith a gyflwynwyd i'w achredu ar Lefelau 1 a 2.

Thema'r gwaith oedd 'Diogelwch ar fynyddoedd Cymru'. Dechreuodd y disgyblion gyda ffeil ddata o ddamweiniau ym Mharc Cenedlaethol Eryri a gasglwyd gan y gwasanaethau achub. Roedd y ffaith eu bod yn gweithio gyda data go iawn ac nid gyda rhywbeth wedi'i ddyfeisio yn rhoi perthnasedd gwirioneddol i'r project ac yn amlwg yn ysgogi'r disgyblion gan godi safon eu gwaith gorffenedig. Roeddent yn gallu dadansoddi'r data ac archwilio rhagdybiaethau amrywiol. Er enghraifft, roeddent yn gallu archwilio'r theori bod y rhan fwyaf o ddamweiniau'n digwydd yn ystod y gaeaf – rhagdybiaeth resymol o ystyried y tywydd garw. Ond canfuwyd i'r gwrthwyneb, bod y rhan fwyaf o ddamweiniau'n digwydd yn yr haf pan fydd mwy o bobl ar y mynyddoedd. Roeddent hefyd yn medru cadarnhau mai diffyg profiad a diffyg offer priodol sy'n achosi'r rhan fwyaf o ddamweiniau.

O'r wybodaeth a ganfuwyd, penderfynwyd creu amrywiaeth o ddeunyddiau fyddai'n cynnig gwybodaeth o ran diogelwch ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r mynyddoedd. Gan ddefnyddio caledwedd a meddalwedd TG, crëwyd:

- posteri y gellid eu gosod mewn mannau strategol i ddenu sylw
- taflenni i'w dosbarthu i bobl sy'n defnyddio'r parc
- cyflwyniad PowerPoint y gellid ei ddangos yn y Canolfannau Gwybodaeth
- rhestr o offer hanfodol er mwyn i bobl fedru mwynhau'r parc yn ddiogel
- rhestr o safweoedd yn nodi cyflenwyr offer a argymhellir.

Yn ystod y gwaith hwn dysgodd y disgyblion am bobl a'r amgylchedd, yn arbennig am eu cymdogaeth a'u cymuned eu hunain. Buont yn archwilio'r materion sy'n berthnasol i ddiogelwch yn y Parc Cenedlaethol gan ymchwilio i ffyrdd o sicrhau'r diogelwch hwn.





## Bwyd sy'n cynnwys cynhwysion o Gymru

Yn yr ysgol gynradd hon, rhoddwyd cyfarwyddiadau dylunio i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6, sef defnyddio cynhwysion traddodiadol lleol o Gymru mewn cynnyrch bwyd 'newydd' – pizza Cymreig.

Ymwelwyd â'r clwb garddio lleol a'r marchnadoedd lleol i archwilio'r amrywiaeth o ffrwythau a llysiau sy'n cael eu tyfu yn yr ardal, gan drafod pam y caiff llysiau arbennig eu tyfu yng Nghymru a pha rai yw'r rhai mwyaf addas i'n hinsawdd ni. Hefyd trafodwyd traddodiad y genhinen Gymreig sydd bellach yn arwyddlun cenedlaethol i Gymru, a nodwyd ei bod bellach yn rhan o'n diwylliant i gynnal cystadlaethau i dyfu'r cennin mwyaf a'r gorau.

Roedd gan y disgyblion ddiddordeb arbennig mewn cynnyrch a oedd yn goch, yn wyrdd ac yn wyn, lliwiau Cymru, felly buont yn casglu tomatos coch, pys gwyrdd ac amrywiaeth o gawsiau Cymreig. Dyluniwyd amrywiaeth o siapiau ar gyfer y pizza oedd yn adlewyrchu Cymru ac a fyddai, yn eu barn hwy, yn apelio at dwristiaid yn y gymdogaeth. Roedd y siapiau yn cynnwys dreigiau, cennin, cennin Pedr, symbol yr Urdd ac amlinelliad Cymru.

Ar ôl cael cyfarwyddiadau iechyd a diogelwch ar gyfer trin bwyd a'i baratoi, gwnaeth y disgyblion eu pizzas, gan ychwanegu cynhwysion coch, gwyn a gwyrdd i ddilyn eu thema Gymreig. Coginiwyd y pizzas – ac roedd pawb wrth eu boddau!

Yn ogystal â chyfrannu at Gwricwlwm Cymreig yr ysgol, cafwyd cyfle hefyd, trwy'r project hwn, i bwyso a mesur, i ddefnyddio graffiau a siartiau cylch ac i ddatblygu sgiliau iaith wrth ddisgrifio ansawdd, siâp a blas y cynhwysion.



## Stadiwm y Mileniwm

Mewn un ysgol uwchradd gweithiodd y myfyrwyr Dylunio a Thechnoleg a ffiseg safon Uwch/Uwch Gyfrannol gyda'i gilydd i greu adroddiad 'astudiaeth achos' fel rhan o'r arholiad Dylunio a Thechnoleg safon Uwch/Uwch Gyfrannol. Rhoddwyd cefnogaeth i'r myfyrwyr gan Gynllun Addysg Peirianneg – Cymru, sy'n trefnu ac yn noddi lleoliadau peirianneg yn y gweithle i fyfyrwyr (am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Norman David; ffôn: 029 2075 1462; www.eesw.org.uk).

Roedd tîm dylunio o bump o fyfyrwyr wedi gweithio gyda Lang, adeiladwyr Stadiwm y Mileniwm, ar rannau amrywiol o'r gwaith adeiladu. Yn benodol, gofynnodd yr adeiladwr iddynt archwilio ffyrdd y gallai'r to ôl-dynadwy weithio. Roedd ganddynt gyllideb ar gyfer y gwaith a chostau adeiladu yr oedd yn rhaid glynu wrthynt.


Archwiliodd y myfyrwyr amrywiaeth o ddulliau a ffynonellau pŵer y gellid eu defnyddio i gael y to i weithio, gan greu modelau syml o atebion posibl i brofi eu hymarferoldeb. Hefyd archwiliwyd deunyddiau amrywiol y gellid eu defnyddio wrth adeiladu'r mecanwaith, gan roi sylw arbennig i'r cyfanswm pwysau ac i'r ddyfais a oedd yn cynnal gan fod rhaid i honno weithio'n ddiogel. Ystyriwyd cost a dibynadwyedd eu hatebion arfaethedig.

Penderfynodd y tîm ar gynllun ac adeiladwyd model llawn o'r to ôl-dynadwy'n gweithio a defnyddiwyd hwnnw fel sail i drafodaeth gyda pheirianwyr Lang. Hefyd, adeiladwyd model llawn o'r stadiwm i archwilio'r effeithiau a gaiff diffyg haul ar y glaswellt. Mae'r ysgol bellach yn gweithio gyda'r penseiri ar Ganolfan y Mileniwm newydd yng Nghaerdydd.

Rhoddodd y project hwn gyfle i'r myfyrwyr gael profiad ymarferol o ddatblygiadau newydd mewn technoleg yng nghyd-destun adeilad Cymreig lleol â phroffil uchel. Fel rhan o'u gwaith, roedd yn rhaid i'r myfyrwyr ystyried yr effaith y gallai'r adeilad ei chael ar yr amgylchedd ac ar yr economi leol.


Design ideas get would-be engineers final spot

Pupils to help raise roof of stadium



## Hanes ardal Merthyr Tudful

Mae'r ysgol, sydd mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol difrifol, yn defnyddio'r gymdogaeth fel canolbwynt ei gwaith ar hanes. Mae gan Ferthyr Tudful hanes diddorol iawn ac mae'n ffodus iawn hefyd i gael amgueddfa a llyfrgell leol ardderchog. Mae'r ysgol yn manteisio i'r eithaf ar y ddau, ac ar wybodaeth gan y Comisiwn Brenhinol ar Henebion ac Adeiladau Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r staff yn cysylltu â haneswyr lleol sy'n ymweld â'r ysgol, ac yn achub ar bob cyfle i gyfoethogi profiad y disgyblion gydag ymweliadau â safleoedd yn y gymdogaeth ac ymhellach i ffwrdd. Mae cerddoriaeth a dawnsio traddodiadol Cymreig a thraddodiad yr Eisteddfod yn rhan o brofiad pob disgybl.

Mae'r ysgol wedi ennill y prif wobrau yng ngwobrau blynyddol Menter Ysgolion Treftadaeth Cymru yn rheolaidd, ac mae'r beirniaid hefyd wedi canmol yn rheolaidd ansawdd gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o hanes.

Yn 2002, bu'r ysgol yn astudio Castell Morlais ym Merthyr Tudful gan ymdrin â'r pwnc mewn amryw o ffyrdd. Yn ogystal ag ymweld â murddun y castell ei hun, gwneud darluniau a chymryd mesuriadau a ffotograffau, dysgodd y plant am y cysylltiadau rhwng y castell hwn a Chastell Caerdydd, gan ymweld ag ef hefyd er mwyn cymharu'r ddau. Hefyd astudiwyd y ffordd o fyw yn y Canol Oesoedd, gan edrych ar fwyd, dillad a dodrefn, gwnaethpwyd teiliau gan ddefnyddio patrymau canoloesol, a threfnwyd arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth o arteffactau a gludwaith yn ymwneud â'r castell a gwybodaeth am y bobl oedd yn byw ynddo a'u ffordd o fyw. Daethpwyd â'r pwnc yn fyw diolch i ymweliad gan addysgwraig amgueddfeydd annibynnol, a ymgymerodd â rôl castellwraig Castell Morlais, gan annog y plant i ofyn cwestiynau iddi er mwyn cael gwybod mwy am fywyd ym Merthyr Tudful yn y gorffennol.

Mae'n amlwg bod y disgyblion wedi mwynhau astudio hanes, ac roeddent yn ymwybodol iawn o ba mor berthnasol oedd yr hanes iddynt, ac yn ymwybodol o gyd-destun Cymreig ehangach.



## Agweddau ar hanes y byd yn yr ugeinfed ganrif: persbectif Cymreig

Mae gan yr ysgol gyfun hon ddalgylch mawr ac amrywiol, gyda llawer o ddisgyblion yn dod o deuluoedd sydd newydd symud i Ynys Môn. Mae'r astudiaeth achos yn seiliedig ar erthygl a gyhoeddwyd gan bennaeth yr adran hanes yn rhifyn Gwanwyn 2001 o *The Welsh Historian*, cylchgrawn Cymdeithas Athrawon Hanes Cymru.

Dechreua'r disgyblion ar eu hastudiaeth o hanes y byd yn yr ugeinfed ganrif gyda chipolwg ar Gymru ar ddechrau'r ganrif, ac yna waith ar effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar wleidyddiaeth, economi, diwylliant a chymdeithas, gan gysylltu â'r darlun o'r byd ehangach.


Yn dilyn hyn, mae'n rhaid i'r disgyblion greu eu harddangosfa eu hunain (a allai fod ar ffurf cyflwyniad PowerPoint) o'r prif ddatblygiadau yn ystod yr ugeinfed ganrif mewn un o'r pum maes a ddewisir, sef 'Hanes merched', 'Comiwnyddiaeth', 'Bywyd a gwaith pobl gyffredin', 'Ymerodraethau' a 'Ni a nhw' – gyda'r pwnc olaf, agored hwn yn addas ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog yn bennaf.

Wrth ddatblygu eu project, mae'n rhaid i'r disgyblion gynnwys llinell amser sy'n dangos y prif ddigwyddiadau yn y maes a ddewisir ganddynt, gan nodi effeithiau'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, a nodi'r newidiadau yn ogystal â'r meysydd sydd heb weld llawer o newid. Mae'n rhaid iddynt hefyd gynnwys:

- rhwng 16 a 25 o brif ddigwyddiadau
- bywydau dau unigolyn a wnaeth gyfraniad sylweddol yn y maes a ddewisir ganddynt
- disgrifiad o'r sefyllfa ar ddiwedd y ganrif, gan nodi effeithiau'r digwyddiadau a'r datblygiadau a astudir ar Gymru
- cyfeirio at brofiadau dynion, merched a phlant
- amrywiaeth o dystiolaeth o'r gymdogaeth, o Gymru, Ewrop a'r byd, gan gynnwys cyfweliadau ag aelodau o'u teuluoedd.

Mae'n rhaid i 75 y cant o'r gwaith fod yn Gymraeg, â dylid rhannu'r 25 y cant sy'n weddill rhwng dwy a phedair iaith arall.

Bwriad yr athro yw diwallu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a gosod sylfaen gadarn ar gyfer gwaith ar yr ugeinfed ganrif yn CA4. Ei fwriad, hefyd, yw datblygu dealltwriaeth y disgyblion o sefyllfa Cymru yn Ewrop yn yr unfed ganrif ar hugain, gyda'r Ewrop hwnnw'n cynnwys gwledydd bach a mawr a llawer o amrywiaeth ddiwylliannol.



## Datblygu ymdeimlad o leoliad

Bu ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg gyfan, yn cynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol, yn cymryd rhan yn y project hwn lle cysylltwyd daearyddiaeth â llythrennedd a chreadigrwydd, yn enwedig drwy gelf a cherddoriaeth. Defnyddiodd yr athrawon bwysigrwydd lleoliad fel canolbwynt i gynyddu ymwybyddiaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r pum agwedd ar y Cwricwlwm Cymreig fel y'u nodir yn y Gofynion Cyffredin. Roedd y gwaith hefyd yn ymdrin ag agweddau ar y rhaglenni astudio ar gyfer daearyddiaeth sy'n ymwneud â sgiliau ac ymholi, a gwybodaeth am yr ardal leol a chymdogaeth gyferbyniol.

## Ble ydym ni? Sut le ydyw?

Er mwyn deall a gwerthfawrogi ble y maent yn byw, datblygodd y disgyblion sgiliau map, gan ddefnyddio mapiau a chynlluniau ar raddfeydd amrywiol a mwynhau arddangosfeydd o'u gwaith map eu hunain drwy'r ysgol. Mae defnyddio mapiau yn rhan hanfodol o weithgarwch cymuned yr ysgol. Dyma rai enghreifftiau:

- cyfranogiad y disgyblion, pan ddefnyddiwyd map mawr a wnaed gan y disgyblion yn dangos y tywydd yng Nghymru fel cefndir ar gyfer cyflwyniad yn y gwasanaeth
- cyfranogiad y rhieni, pan luniwyd map yn y neuadd gan ddefnyddio cardiau post y rhieni pan oeddent ar eu gwyliau, gan bwysleisio lleoliad y dref yng Nghymru ac yn Ewrop
- gwaith dosbarth, pan astudiodd Blwyddyn 6 ffotograffau arosgo o'r awyr, gan nodi sut mae'r dref wedi esblygu ac archwilio'r rhesymau y tu ôl i newidiadau lleol
- gwaith dosbarth, pan greodd Blwyddyn 5 a 6 fap wal mawr i ddangos y defnydd a wnaed o dir a dangos lleoliad eu cartrefi
- asesu, pan ddefnyddiodd yr athro Uned 1 y *Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Daearyddiaeth CA2*, ACCAC, 2001 fel ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

## Sut ydym ni yr un fath? Sut ydym ni'n wahanol? Siarad a gweithio gyda gwledydd eraill.

Mae'r ysgol wedi datblygu a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi ei chysylltu hi â rhannau eraill o Gymru, Ewrop a'r byd ehangach. Rhoddir pwyslais ar gyfranogiad gweithredol gan bob disgybl. Nodir y prif fentrau isod:

- Cyswllt Ewropeaidd – cyfnewid gwaith: mae gan yr ysgol gysylltiadau gwaith gydag ysgol yn Nenmarc ac ysgol yn yr Eidal. Bob tymor, penderfyna'r athrawon ar thema astudio sy'n caniatáu i bob dosbarth gymryd rhan a siarad am Gymru. Yn y gorffennol, dwy o'r themâu oedd 'ein hafon' ac 'ein hadeiladau'. Caiff pecynnau o waith y plant eu cyfnewid gyda'r partneriaid Ewropeaidd. Cânt eu hagor yn y gwasanaeth, eu trafod gyda'r plant a'u harddangos.



- Cyswllt rhyngwladol – cynhadledd fideo: enillodd y disgyblion gystadleuaeth drwy ddewis 10 gair a oedd yn disgrifio eu hysgol. Y wobr oedd cymryd rhan mewn cynhadledd fideo gyda disgyblion o ysgol yn New South Wales, Awstralia. Buont yn siarad am storïau gwerin lleol a thrafod sut brofiad yw bod yn ddwyieithog a medru'r Gymraeg. Roedd gan rai o'r disgyblion o Awstralia gyndeidiau o Gymru, ac roeddent eisiau gwybod sut y dylent ynganu eu henwau. Daeth y gynhadledd i ben gyda'r geiriau, 'Nos da' gan y disgyblion o Awstralia – prawf byw o bwysigrwydd lleoliadau cymharol yn y byd. Mae'r ysgol bellach wedi prynu camcorder ac mae'r disgyblion yn bwriadu gwneud fideo o'r ysgol a'r ardal i'w ddangos yn y gynhadledd nesaf.

- Ymweliadau â llefydd yng Nghymru – dyddiadur lluniau yn yr ystafell ddosbarth: nod yr ysgol yw i bob disgybl, yn cynnwys y rhai hynny ag anghenion arbennig, gymryd rhan mewn dau ymweliad bob tymor. Mae pob dosbarth yn arddangos dyddiadur lluniau o'i weithgareddau a'i ymweliadau. Caiff ymweliadau bob amser eu hintegreiddio i'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm ac fe'u dilynir gan waith grŵp ac arddangosfeydd. Yn ddiweddar ymwelwyd â'r Ardd Fotaneg Genedlaethol ac Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan.

Dywedodd y pennaeth:

> 'Ein nod yw integreiddio Cwricwlwm Cymreig i holl waith cynllunio cwricwlwm yr ysgol. Rhaid iddo hefyd fod yn gynhwysol. Mae'r gymuned ehangach yn cymryd rhan yn ogystal â phob disgybl gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol. Gan fod daearyddiaeth yn ymwneud â lle, gall ategu'r ymagwedd gyfannol tuag at Gwricwlwm Cymreig ond mae'r elfennau eraill o greadigrwydd, llythrennedd a diwylliant hefyd yn werthfawr. Rydym yn tueddu i gyfuno'r rhain drwy addysgu yn ôl themâu ar ddiwrnod neu wythnos benodol, er enghraifft ar Ddydd Gŵyl Dewi.
>
> Dyma rai o'r nodweddion allweddol a gyfrannodd at lwyddiant y rhaglen ar gyfer daearyddiaeth:
>
> - cydlynydd daearyddiaeth profiadol sy'n medru nodi cyfleoedd i gynllunio'r cwricwlwm daearyddiaeth ac integreiddio Cwricwlwm Cymreig
> - penderfynu, ar y cyd, ar thema dymhorol a all weithio ar draws y cwricwlwm
> - pob dosbarth yn cymryd rhan mewn gwaith maes lleol.'

Roedd y gyfres hon o wersi yn rhan o raglen ddigwyddiadau arbennig a drefnwyd er mwyn creu cysylltiadau ag wythnos yr Eisteddfod mewn ysgol uwchradd gyfrwng Saesneg yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

## Sut le yw Gogledd Cymru?

Gwaith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 oedd hwn, ac fe'i cynlluniwyd i gydfynd â thema CA3: Anheddiad – sut a pham y mae newidiadau'n digwydd mewn aneddiadau a sut maent yn effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol. Cyfrannodd at ddealltwriaeth y disgyblion o'r grymoedd economaidd sy'n llunio bywyd yng Nghymru ac at eu gwerthfawrogiad o'r materion amgylcheddol sy'n deillio o newid economaidd.

Roedd y gweithgareddau ategol yn cynnwys gwaith maes ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac yn yr Wyddgrug yn ogystal â defnyddio mapiau. Yn 2002, cofrestrodd yr ysgol i fod yn rhan o Gynllun yr Arolwg Ordnans sy'n caniatáu i bob disgybl Blwyddyn 7 i dderbyn copi am ddim o fap Arolwg Ordnans lleol ar raddfa 1:25,000.

Gofynnwyd i'r disgyblion gynllunio a dylunio llyfryn twristiaeth hysbysebol ar gyfer Gogledd Cymru. Gan ddefnyddio mapiau'r Arolwg Ordnans, dehonglwyd arwyddion confensiynol a symbolau ar fapiau i nodi a thrafod cyfres o gwestiynau.

- Sut le yw Gogledd Cymru?
- Beth yw nodweddion yr aneddiadau lleol?
- O ble y daw'r twristiaid a sut y maent yn cyrraedd yno?
- Pam y maent yn ymweld â Gogledd Cymru?
- A ydym ni eisiau hyrwyddo twristiaeth?

Defnyddiwyd y wybodaeth a ganfuwyd ganddynt a'r safbwyntiau a fynegwyd i gynllunio a dylunio eu llyfrynnau ac fe'u harddangoswyd yn yr ystafell ddosbarth. Drwy'r gwaith hwn, dangosodd y disgyblion ymwybyddiaeth o'r grymoedd economaidd sy'n llunio bywyd yng Nghymru a'r materion sy'n deillio o hynny.

## Poster – Beth yw Cymru?

Cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgaredd ysgol gyfan i greu arddangosfa ar gyfer wythnos yr Eisteddfod. Fis cyn yr Eisteddfod un o'r tasgau gwaith cartref oedd llunio poster yn dangos delweddau o Gymru ac fe'u cyflwynwyd i gael eu beirniadu.

Defnyddiwyd y posteri i greu arddangosfa a oedd yn cynnwys delweddau o ddiwylliant, hamdden, treftadaeth, enwogion y byd chwaraeon a chantorion pop. Cynhaliwyd noson i'r buddugwyr a gwahoddwyd rhieni ac aelodau o'r gymuned leol i'r noson.

Dywedodd athro dosbarth yn yr ysgol:

> 'Ein nod yw manteisio ar bob cyfle i integreiddio enghreifftiau Cymreig gan fod hynny yn gwneud ein gwaith yn fwy perthnasol ac yn gwella dealltwriaeth ddaearyddol y disgyblion. Ein nod yw meithrin sgiliau daearyddiaeth ac ymwybyddiaeth leol drwy ddefnyddio mapiau lleol ac archwilio materion sy'n bwysig yma yng Ngogledd Cymru – materion fel y defnydd o ddŵr a phwysigrwydd bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd i gynorthwyo'r gwaith o ailddatblygu rhanbarthau yng Nghymru. Yn benodol, rydym yn ceisio ymdrin â'r thema o newid sydd mor bwysig yma yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae ymwybyddiaeth gyffredinol o fewn yr ysgol gyfan yn sicr yn cyfrannu at y modd yr ymdrinnir â'r dimensiwn Cymreig.'

Ychwanegodd cydlynydd y Dyniaethau:

> 'Mae gan y Cwricwlwm Cymreig ddimensiwn ychwanegol yma yng Ngogledd Ddwyrain Cymru oherwydd ein perthynas â Gogledd Orllewin Lloegr. Prin iawn yw'r adnoddau penodol sy'n cydnabod hyn ac mae'n rhaid i'r athrawon ddatblygu eu deunyddiau a'u dulliau eu hunain.'

## Sut beth yw bod yn Gymro neu'n Gymraes?

Mewn ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg yng nghymoedd De Cymru, astudiodd disgyblion Blwyddyn 7 y thema, 'Ble mae pobl yn byw ac yn gweithio?' sy'n edrych ar beth sy'n achosi mudo a newid economaidd, a chanlyniadau hynny. Mewn dwy o'r gwersi, trafododd y disgyblion y cwestiwn, 'Sut beth yw bod yn Gymro neu'n Gymraes?'

Yn y wers gyntaf, defnyddiwyd fideo fel canolbwynt ar gyfer trafod nodweddion economaidd De Cymru a'r ffordd y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol effeithio ar fywydau pobl yn y rhanbarth. Yn y wers ddilynol, daeth perchennog caffi Eidalaidd lleol llwyddiannus iawn i siarad â'r disgyblion am ei deulu, sut y mudodd ei deulu i Gymru a'r ffordd y datblygodd ei fusnes. Wrth drafod, archwiliodd gyda'r dosbarth y syniadau amrywiol o 'Gymreictod', yn arbennig y broblem o benderfynu pa dîm rygbi i'w gefnogi! Lluniodd a gofynnodd y disgyblion eu cwestiynau eu hunain gan gyfleu eu hagweddau eu hunain tuag at fod yn Gymry. Hefyd, fe ddaethant i ddeall yn well y broses o fudo i gymoedd Cymru.

Dywedodd eu hathro:

> 'Mae hon yn wers y mae'r disgyblion yn ei mwynhau'n fawr, ac mae'n rhoi cyfle da i ystyried materion fel amrywiaeth diwylliannol. Mae'n gweithio'n wahanol bob blwyddyn yn dibynnu ar gefndir diwylliannol aelodau unigol o'r dosbarth, ond y peth pwysig yw bod y disgyblion yn dechrau herio eu ffordd eu hunain o feddwl a ffordd eu cyd-ddisgyblion o feddwl. Maent yn dechrau sylweddoli mai stereoteipiau yw rhai o'r delweddau a gyflwynir.
>
> Caiff pob disgybl Blwyddyn 7 brofiad preswyl yn Llangrannog, ac mae hynny'n fuddiol iawn o ran datblygu gwerthfawrogiad y disgyblion o'r gwahaniaethau rhanbarthol o fewn Cymru. Maent yn profi tirlun cyferbyniol yng Nghymru ac, i'r rhai hynny sy'n dod o gartrefi a chymunedau di-Gymraeg, amgylchedd ieithyddol wahanol.
>
> Rwyf yn integreiddio dimensiwn Cymreig drwy gydol CA3 ac yn dychwelyd at yr un thema o 'Gymreictod' ym Mlwyddyn 9 pan fyddwn wedi edrych ar faterion byd-eang gwahanol, er mwyn gosod y cefndir ar gyfer astudiaethau'r disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4.'





## Yr amgylchedd lleol – nodweddion pensaernïol

Yn yr uned waith hon, dros gyfnod o chwe wythnos, archwiliodd disgyblion CA2 elfennau pensaernïol o fewn eu cymdogaeth, gan ddefnyddio llyfr brasluniau a chamerâu digidol i gasglu enghreifftiau o nodweddion ar adeiladau yn eu tref.

I ddechrau buont yn archwilio adeilad yr ysgol, y tu fewn a'r tu allan. Gan ddefnyddio pensiliau, ysgrifbinnau a chreonau, buont yn tynnu lluniau o'u harsylwadau a gwneud rhwbiadau ar arwynebau. Buont yn edrych ar nodweddion ac yn trafod siapiau a phatrymau gan ddefnyddio eu llyfrau brasluniau i gofnodi syniadau ac i restru geiriau a oedd yn disgrifio ac yn enwi nodweddion arbennig o amgylch yr adeilad. Dewiswyd siapiau a geiriau arbennig fel ffocws ar gyfer trafodaeth bellach yn y dosbarth ac i greu thema gyffredin ar gyfer y project. Anogwyd y disgyblion gan yr athro i rannu syniadau a thrafod sut yr hoffent i'r gwaith hwn ddatblygu.

Yn ystod yr wythnos ganlynol, llungopïwyd darluniau penodol o'u llyfrau brasluniau ac fe'u defnyddiwyd i greu arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth. Roedd yr arddangosfa hefyd yn cynnwys banc geiriau syml, a luniwyd gan y disgyblion, i ddisgrifio'r siapiau a'r patrymau a welwyd o amgylch yr ysgol.

Tuag at ddiwedd yr wythnos, gyda grŵp o oedolion cynorthwyol, aeth yr athrawon â'r disgyblion ar 'daith fraslunio' o amgylch y dref gyda'u llyfrau brasluniau a chamera digidol. Gweithiodd y disgyblion mewn grwpiau o bedwar neu bump gan edrych ar adeiladau gwahanol. Gofynnodd yr athrawon iddynt chwilio am leoliadau diddorol neu anarferol wrth wneud brasluniau. Gweithiodd y disgyblion yn gyflym, gan ddefnyddio pensil, a cheisio cynnwys 'cymaint o wybodaeth â phosibl yn eu brasluniau heb fod yn orfanwl'. Unwaith yr oeddent wedi gwneud y brasluniau cychwynnol hyn, buont yn llenwi tudalen o'u llyfr brasluniau gyda darluniau bach o nodweddion pensaernïol a chelfi fel dolenni drysau, blychau postio a chliciedau ffenestri.

Yn ystod eu gwers gelf nesaf, dangoswyd i'r disgyblion enghreifftiau o fapiau o drefi a dinasoedd gwahanol ledled Cymru, ac o daflenni'n hysbysu llwybrau treftadaeth. Trafodwyd y mathau o nodweddion gweledol a geir yn y mapiau hyn a sut y gallent ddefnyddio'r wybodaeth yr oeddent wedi'i chasglu i gydweithio a llunio 'map treftadaeth', ar raddfa fawr, o'u tref eu hunain. Buont yn edrych eto ar eu llyfrau brasluniau a ffotograffau digidol gan ddechrau trefnu eu canfyddiadau yn ôl grwpiau.

Dros y pedair wythnos nesaf, gweithiodd y disgyblion mewn grwpiau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau i lunio arddangosfa o eiriau a darluniau wedi'u trefnu'n ofalus mewn ffyrdd a oedd yn briodol yn ddaearyddol i arwain gwyliwr o amgylch y dref i ganfod yr holl nodweddion a gasglwyd.

Mae'r project hwn yn amlwg yn diwallu elfennau o'r rhaglen astudio ar gyfer celf yn ogystal â diwallu un o ofynion y Cwricwlwm Cymreig, sef y dylai'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am eu hamgylchedd a'u diwylliant lleol. Bu'n llwyddiant ysgubol ac yn fodd hefyd i'r disgyblion edrych ar eu tref drwy lygaid newydd.

## Treftadaeth Ddiwydiannol – Diwylliant Gweledol Cymru

Yn yr uned hon o waith dros gyfnod o 12 wythnos, defnyddiodd yr athro y llyfr, *Diwylliant Gweledol Cymru: Y Gymru Ddiwydiannol* gan Peter Lord (Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), i gyflwyno celf ddiwydiannol Cymru i ddisgyblion Blwyddyn 9.

Yn ystod y wers gyntaf, cyflwynodd yr athro rai o'r delweddau yn y llyfr i'r disgyblion a thrafododd naws a drama mewn paentiadau a darluniau. Wedyn gweithiodd y disgyblion mewn parau i wneud darluniau dramatig o'i gilydd. Y nod oedd gweithio'n gyflym ac yn 'rhydd'. Gan ddefnyddio pastelau olew, llinellau bras a lliwiau atmosfferaidd cryf, disgrifiodd y disgyblion eu partneriaid 'wrth eu gwaith' a hynny o safbwynt dramatig, gan ddangos felly eu dealltwriaeth o gysyniad drama a sut i'w ddefnyddio wrth greu delweddau. Ar ddiwedd y wers, edrychodd pawb ar luniadau ei gilydd a thrafod gwahanol gryfderau'r gwaith yn fyr.

Rhoddwyd gwaith cartref i'r disgyblion, sef gofynnwyd iddynt chwilio am ddarlun neu ddigwyddiad a oedd yn dangos drama a/neu naws. Gallent ddewis o unrhyw le – cylchgrawn, teledu, ffilm – neu ddefnyddio darlun/digwyddiad dychmygol wedi ei seilio ar stori yr oeddent wedi'i darllen neu ei chlywed. Y dasg oedd ysgrifennu disgrifiad o'r darlun neu'r olygfa a ddewiswyd neu dynnu llun o'r stori, a gwyddai'r disgyblion y byddai disgwyl iddynt i gyd yn eu tro siarad am eu rhesymau dros ddewis y ddelwedd hon ac egluro'i nodweddion dramatig neu'r nodweddion a oedd yn creu naws i'r dosbarth yn y wers nesaf.

Ar gyfer yr ail wers, roedd yr athro wedi dewis amrywiaeth o blatiau lliw o'r llyfr. Rhannwyd y dosbarth yn chwe grŵp o bump. Y dasg ar gyfer y wers hon, i ddechrau, oedd siarad am eu gwaith cartref ac egluro'u dewis, ac yna edrych ar y delweddau a dewis y ddwy ddelwedd fwyaf dramatig, ym marn y grŵp. Erbyn diwedd y wers, roedd pob grŵp yn awyddus i siarad am eu dewis ac i gyfiawnhau pam eu bod yn teimlo mai'r delweddau hyn oedd y rhai mwyaf dramatig a'r rhai oedd yn creu y mwyaf o naws. Y pum delwedd a ddewiswyd oedd:


1. *Rolling Mills* gan Thomas Horner, c. 1817 – dyfrlliw (plât 29, tudalen 31)
2. *Bute Furnace, Rhymney,* c. 1830 – olew (plât 75, tudalen 58)
3. *The Penrhyn Quarry* gan Henry Hawkins, 1832 – olew (plât 114, tudalennau 80/81)
4. *Dowlais Ironworks* gan George Childs, 1840 – dyfrlliw (plât 197, tudalen 135)
5. *Steelworks, Cardiff, at Night* gan Lionel Walden, 1897 – olew (plât 282, tudalen 181)

Ar gyfer y wers nesaf, roedd yr athro wedi paratoi cyfres o ddelweddau gwrthgyferbyniol i'w harddangos yn yr ystafell ddosbarth, yn dangos delweddau dramatig o bortreadau, gwrthrychau a chyfansoddiadau haniaethol. Yn ystod y wers, gofynnwyd i'r disgyblion ddatblygu cyfansoddiad haniaethol bychan gan ddefnyddio cyfryngau cymysg a chan ddefnyddio llinell, lliw, siâp a thôn. Ar gyfer eu gwaith cartref, gofynnwyd iddynt wneud cyfres o frasluniau yn eu cartref neu eu cymdogaeth a oedd yn dangos pobl yn gweithio mewn ffordd ddramatig.

Yn ystod y gwersi dros y pedair wythnos nesaf, datblygodd y disgyblion eu cyfansoddiad gan ddefnyddio paent ar bapur siwgr llwyd A2. Fe ddefnyddion nhw eu llyfrau brasluniau i gasglu mwy o wybodaeth o'u ffynonellau gwreiddiol a chasglu darluniau eraill yn dangos drama a naws wrth i'r gwersi ddatblygu.

Yn ystod wythfed wythnos y project, rhoddwyd yr holl waith i fyny yn yr ystafell ddosbarth a defnyddiodd y dosbarth y sesiwn hwn i adolygu cynnydd ac i wneud gwerthusiadau. Cwblhaodd y disgyblion eu gwaith yn ystod y ddwy wers nesaf ac, yn ystod wythnos 11, arddangoswyd eu gwaith yn y coridor wrth yr ystafell gelf. Yn y wers olaf, cafodd y disgyblion a'r athro gyfle i adolygu'r gwaith gorffenedig a gwneud gwerthusiad terfynol.








## Merch y Llyn

Mae project ar opera wedi ysgogi gwaith yn ymwneud â Chwricwlwm Cymreig mewn tair ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin. Arweiniwyd y gwaith gan Opera Box Limited, cwmni addysg gerddorol teithiol a leolir yn Aberhonddu (Ffôn: 01874 690339; www.operabox.co.uk). Ymwelodd cerddorion o Opera Box â phob ysgol unwaith yr wythnos dros gyfnod o saith wythnos, gan weithio gyda disgyblion Blwyddyn 6 i gyfansoddi a pherfformio opera.

Dechreuodd y disgyblion drwy archwilio *Dido and Aeneas* gan Purcell, yna penderfynwyd seilio eu hopera eu hunain ar y chwedl Gymraeg, *Merch y Llyn*. Mae'r chwedl hon, sydd wedi ei seilio ar Lyn y Fan ger Llangadog yn y Mynyddoedd Du, yn adrodd hanes bugail sy'n cyfarfod tair o forwynion ger y llyn ac mae'n priodi un ohonyn nhw. Un o amodau eu priodas yw os bydd y bugail yn taro ei wraig deirgwaith, bydd yn dychwelyd i'r llyn. Yn ystod eu bywyd priodasol, mae'r bugail yn taro ei wraig deirgwaith – ym medydd un o'u meibion, mewn priodas ac mewn angladd. Yn ôl ei haddewid, mae'r ferch yn dychwelyd i'r llyn.

Rhan gyntaf y broses greadigol oedd ymweld â Llyn y Fan. Recordiodd y disgyblion rai o'r synau o amgylch y llyn, gwnaethant frasluniau o'r olygfa ac ailwrando ar y stori. Ar ôl dychwelyd i'r ysgol a chyda help y cerddorion a'r athrawon, ysgrifennodd y disgyblion sgriptiau a geiriau, gan gyfansoddi caneuon a cherddoriaeth offerynnol, a gwneud gwisgoedd ac offer llwyfannu. Er mai ysgolion Cymraeg yw'r tair ysgol, cynhaliwyd y gweithdai gyda'r cerddorion yn Saesneg. Llwyddodd y disgyblion i integreiddio eu sgiliau wrth berfformio a chyfansoddi gyda drama, symud, ysgrifennu creadigol a dylunio. Hefyd cyfrifoldeb y disgyblion oedd marchnata, codi arian a denu nawdd.

Arweiniodd y gwaith paratoi a barhaodd am saith wythnos at berfformiad gyda'r nos o gerddoriaeth y plant. Perfformiodd y disgyblion eu hopera 20 munud wedi ei seilio ar *Ferch y Llyn*, gan ymuno wedyn â cherddorion proffesiynol o Opera Box i berfformio darnau o *Dido and Aeneas*.

Ar ôl dychwelyd i'w hysgolion eu hunain gyda'u hathrawon, cafwyd dilyniant i waith perfformio a chyfansoddi'r disgyblion drwy werthuso *Y Llyn Mud* gan Grace Williams. Er nad yw'r darn hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â Llyn y Fan, mae'n ddarn ardderchog o gerddoriaeth raglen sy'n digwydd disgrifio naws y chwedl Gymraeg. Wedi'i ddarganfod a'i gyhoeddi'n ddiweddar, mae *Y Llyn Mud* ar gael ar gryno ddisg o Gerddoriaeth Gyfoes Gymraeg ar gyfer y Piano a berfformir gan Iwan Llewelyn Jones (*Portreadau Cymreig*, Sain, SCD2308). Mae'r ddisg yn cynnwys darnau diddorol gan gyfansoddwyr amrywiol o Gymru fel Ceiri Torjussen, Pwyll ap Siôn a Karl Jenkins.

### Cŵl Cymru

Mewn un ysgol uwchradd Gymraeg, mae'r Pennaeth Cerddoriaeth wedi integreiddio rhai o ddeunyddiau comisiwn ACCAC sy'n ymwneud â Chwricwlwm Cymreig i'w chynllun gwaith ar gyfer CA3.

Ym Mlwyddyn 7, dechreuodd y disgyblion drwy berfformio'r gân werin Gymraeg *Si Hei Lwli, 'Mabi*. Mae'r gân hon yn defnyddio graddfa bentatonig (h.y. pum nodyn), ac mae felly yn ddelfrydol ar gyfer adeiladu ar brofiadau'r disgyblion yn CA2. Bu'r disgyblion yn gweithio fel dosbarth i ddechrau, ac yna mewn grwpiau, ar drefniant tair rhan gan ddefnyddio'u lleisiau, recorderau, offerynnau taro wedi eu tiwnio ac allweddellau. Perfformiodd pob grŵp o flaen y dosbarth. Bu'r disgyblion yn gwerthuso'r perfformiadau cyn symud ymlaen at waith cyfansoddi mewn grwpiau, gan ddefnyddio'r raddfa bentatonig a dynwared ffurf, strwythur a natur rwydd y gân werin.

Bu'r disgyblion yn ailastudio *Si Hei Lwli, 'Mabi* ym Mlwyddyn 8 drwy wrando ar *Fantasia on Welsh Nursery Rhymes* gan Grace Williams. Mae'r gwaith hwn yn cyflwyno trefniadau o wyth hwiangerdd Gymraeg; roedd y disgyblion yn adnabod y rhan fwyaf o'r rhain gan roi sylwadau ar y trefniant, y defnydd o offerynnau, ac ati. Roedd hyn yn ysgogi'r disgyblion i ddewis odl wahanol a chyfansoddi eu trefniant eu hunain. Mae *The Music of Wales* (Curiad, 1996, ISBN 1 897664 90 7) yn cynnwys recordiad o *Fantasia* a gwybodaeth ddefnyddiol am y gerddoriaeth.

Mae bandiau Cymreig fel Catatonia, Manic Street Preachers, the Stereophonics, Super Furry Animals a Gorky's Zygotic Mynci wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r syniad o 'Cŵl Cymru' – model rôl ffasiynol, cyfoes o Gymreictod. Roedd y ddelwedd hon yn apelio at y disgyblion Blwyddyn 9 hynny a ddysgodd sut i berfformio trefniant o *International Velvet* (Catatonia). Cyflwynir y trefniant hwn mewn pecyn o'r enw *Ymunwch yn y GÂN!!* (UWIC Press, 2001, ISBN 1 902724 36 4). Er mwyn perfformio'r trefniant, defnyddiodd y disgyblion eu lleisiau ac unrhyw gasgliad o offerynnau y medron nhw eu cynnig. Er enghraifft, roedd un dosbarth wedi defnyddio allweddellau, offerynnau taro ac offer drymiau gan ddefnyddio'r ffeil MIDI i ddarparu'r rhythm bwysig a'r rhannau bas. Roedd dosbarth arall wedi ychwanegu rhan desgant dewisol ar offerynnau B♭ gan rannu rhan yr offer drymiau rhwng dau ddisgybl. Roedd pob dosbarth wedi recordio eu perfformiad o *International Velvet* gan werthuso eu perfformiad eu hunain a pherfformiadau dosbarthiadau eraill.



## Datblygu Cwricwlwm Cymreig drwy ddawns

Roedd y project hwn yn cynnwys myfyrwyr o Goleg Prifysgol Cymru Casnewydd yn gweithio gyda disgyblion o dair ysgol gynradd leol.

Aeth y disgyblion i'r coleg ac arweiniwyd y project gan diwtoriaid y brifysgol gyda chymorth athrawon dan hyfforddiant sy'n arbenigo mewn Addysg Gorfforol. Yr ysgogiad ar gyfer y gwaith dawns oedd y gwaith cloddio am lo a chludo glo i borthladd Casnewydd. Cafwyd sesiwn holi ac ateb cychwynnol a datblygodd hynny ddealltwriaeth y disgyblion o nodweddion hanesyddol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Yn ystod y drafodaeth hon defnyddiodd yr arweinwyr luniau o agweddau gwahanol ar gloddio am lo.

Gweithiodd y disgyblion yn unigol i greu dilyniant o symudiadau wedi eu seilio ar weithredoedd sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gloddio am lo. Datblygwyd y gwaith mewn grwpiau bach i ddangos gwahanol ffyrdd o gludo glo o'r pyllau. Gweithiodd yr athrawon dan hyfforddiant gyda'r disgyblion i ddatblygu'r agwedd hon ar eu gwaith, gan osod tasgau i'r disgyblion a'u helpu i wella'u sgiliau cyfansoddi a choreograffi. Anogwyd y disgyblion i werthuso perfformiad eraill ac i roi sylwadau ar ansawdd y gwaith a arsylwyd.

Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion roi sylwadau ar bwysigrwydd y diwydiant cloddio am lo ac i fyfyrio ar yr effaith a gafodd cloddio am lo ar amgylchedd De Cymru. Roedd eu dilyniant o symudiadau'n dangos eu dealltwriaeth o amodau gweithio gwael y glowyr a'r peryglon sy'n gysylltiedig â gweithio o dan y ddaear. Roeddent hefyd yn deall pwysigrwydd y pyllau glo i Gymru yn yr ugeinfed ganrif a sut mae'r sefyllfa wedi newid erbyn heddiw. Roedd cydweithio mewn grŵp yn gwella sgiliau creadigol y disgyblion ac yn rhoi cyfle iddynt fynegi eu syniadau mewn ffordd sy'n llawn dychymyg. Defnyddiwyd Cymraeg achlysurol yn ystod y gwaith ymarferol a dysgodd y disgyblion i ymateb yn briodol.

Dywedodd yr athrawon eu bod wedi gweld gwelliannau nid yn unig yn symudiadau'r disgyblion ond hefyd yn eu gallu i greu dilyniannau clir o symudiadau. Roedd y disgyblion wedi ymateb yn dda i'r cymorth a gynigiwyd a'r tasgau a osodwyd. Wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol, roedd yn amlwg bod y gwaith wedi eu hysgogi ac roeddent yn gallu cofio'r wybodaeth a rannwyd ar y diwrnod. Roeddent hefyd wedi elwa ar weithio gyda disgyblion o ysgolion eraill.

Roedd gwerthusiadau'r athrawon dan hyfforddiant yn canolbwyntio ar y gallu i ddefnyddio agweddau ar Gwricwlwm Cymreig fel ysgogiad ar gyfer dawns, ac ar y cyfle a gafwyd drwy'r uned hon o waith i asesu safonau cyrhaeddiad y disgyblion wrth gynllunio, perfformio a gwerthuso.

## Addysg Chwaraeon

Yn yr ysgol gyfun gyfrwng Saesneg hon, cyflwynodd yr athrawon ddisgyblion Blwyddyn 10 i raglen Addysg Chwaraeon fel fframwaith dysgu amgen yn lle rygbi a phêl-rwyd. Cyfrannodd y disgyblion at y gwaith o gynllunio, rheoli a rhedeg eu rhaglen eu hunain a barhaodd am dymor. Y disgyblion fu'n gyfrifol am y canlynol:

- asesu'r risgiau
- gweithgareddau cynhesu ac oeri
- cynllunio deunyddiau ar gyfer gwersi ac ymarferion clybiau
- addysgu'r rhan fwyaf o'r cynnwys
- dewis tactegau priodol ar gyfer cystadlaethau
- rhoi cymorth cyntaf os oedd ei angen
- trefnu cystadlaethau
- dewis carfanau a thimau
- datrys dadleuon
- dyfarnu.

Rôl hwylusydd oedd gan yr athro, a helpu'r disgyblion i gynllunio deunyddiau addysgu priodol yn ddiogel ac arwain sesiynau adolygu, yn ogystal â chyfrannu at yr hyfforddi neu'r dyfarnu yn unol â gwahoddiad y garfan neu'r capten. Aeth y disgyblion ati i gynhyrchu eu cardiau tasgau laminedig eu hunain gyda chymorth cydlynydd TG yr ysgol. Daeth y tymor i ben gyda chystadleuaeth ar ffurf gornest gron a drefnwyd gan y disgyblion yn erbyn ysgolion uwchradd o'r sir a wahoddwyd i gymryd rhan.


Penderfynodd yr athro y gallai'r fframwaith hwn gael ei ddefnyddio i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol ac ieithyddol Cymru.

Heriwyd y disgyblion i ddatblygu detholiad o'u hadnoddau yn ddwyieithog ac aethant ati i gynhyrchu cardiau tasgau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd penawdau'r hysbysfwrdd Addysg Chwaraeon, a neilltuwyd ar gyfer hysbysiadau am ymarferion a chystadlaethau'r tymor, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a dysgodd y disgyblion y geiriau a'r arwyddion allweddol a ddefnyddir wrth ddyfarnu yn y ddwy iaith.

Roedd cynllunio'r gystadleuaeth ar ddiwedd y tymor (sef uchafbwynt y flwyddyn) yn golygu ysgrifennu at chwaraewyr a oedd wedi cynrychioli Cymru ym mhob un o'r campau a chyfarfod â nhw. Gwahoddodd y disgyblion y chwaraewyr rhyngwladol hyn i roi cyngor ynghylch sut i gynllunio seremoni wobrwyo i'r timau rygbi a phêl-rwyd mwyaf llwyddiannus, gan gynnwys chwarae cerddoriaeth briodol, gwahodd pwysigion lleol a chyflwyno medalau neu dystysgrif. Yn olaf, cytunodd y chwaraewyr i gyflwyno'r gwobrau eu hunain a chyfarfod â'r disgyblion.

## Dewi Sant

Bob blwyddyn, ym mis Chwefror, mae disgyblion ysgol gynradd yng Ngorllewin Cymru yn ymweld ag Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Glyn Rhosyn (lle y sefydlodd Dewi Sant fynachdy) a Llanddewi Brefi, y lle y dywedir iddo roi pregeth enwog. Daw'r plant i wybod am fywyd y sant a'r ffordd y lledaenodd ef Gristnogaeth ledled Cymru gan fyw ei fywyd yn helpu eraill ac yn addysgu pobl am Iesu. Gweithia'r disgyblion ar broject ymchwil yn yr ystafell ddosbarth gan geisio deall pam mae Dewi Sant mor arbennig i Gristnogion ledled Cymru, pam mae pobl yn meddwl ei fod yn berson da, pam y credwyd bod sefydlu eglwysi ac addysgu pobl mor arbennig a pham mae Cristnogion heddiw yn ei ystyried yn esiampl dda. Maent yn cymharu nodweddion enwogion cyfoes Cymru â nodweddion Dewi Sant ac yn ystyried a yw'r enwogion hyn yn debygol o gael eu cofio dros y canrifoedd i ddod. Gan ddefnyddio ffotograffau o'u teithiau a thrwy gofnodi eu hymchwil, maent yn cynhyrchu llyfr dosbarth o'r enw 'Pam mae Dewi Sant mor arbennig?', a chaiff rhannau ohono eu darllen ar Ddydd Gŵyl Dewi. Drwy wneud hyn, maent yn bodloni gofynion y maes llafur y cytunwyd arno yn lleol.




## Dechreuadau

Gwahoddwyd dau arweinydd ffydd lleol i ysgol gynradd a oedd yn gweithio ar y pwnc 'dechreuadau' i ddangos sut y caiff babanod eu croesawu i'r ffydd. Ar gyfer Cristnogaeth, efelychodd ficer lleol wasanaeth bedyddio baban. Defnyddiodd ddol yn lle babi a rhoddodd ddŵr sanctaidd ar ei phen gan dynnu arwydd croes. Gwnaeth y 'rhieni bedydd' a'r 'rhieni' addewidion ar ran y babi a rhoddwyd cannwyll i'r babi.

Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, daeth yr imam o'r mosg lleol i ymweld â'r ysgol i ddangos sut y caiff babanod eu croesawu i'r ffydd Fwslemaidd. Dywedodd wrth y plant fod rhieni Mwslemaidd yn gwahodd yr imam i berfformio gwasanaeth yng nghartref y baban wythnos ar ôl yr enedigaeth. Gan ddefnyddio dol, dangosodd yr imam i'r disgyblion sut y byddai'n sibrwd geiriau o'r Qur'ān i glustiau'r babi, sut y byddai gwallt y babi'n cael ei eillio a'i bwyso a sut y disgwylid i'r teulu roi'r un faint o arian â phwysau gwallt y babi i'r tlodion.

Roedd y gweithgareddau hyn yn helpu'r disgyblion i ddeall dathliadau pwysig a gynhelir o fewn dau draddodiad crefyddol gwahanol ac i ddechrau deall yr amrywiaeth ffydd a geir yn y gymuned leol.

## Mathau o brofiad crefyddol yng Nghymru

Mae ysgol yn Ne Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu safwe addysg grefyddol. Mae'r disgyblion sy'n rhan o'r project yn gwneud ymchwil ar sut brofiad yw bod yn aelod o bob grŵp ffydd lleol yn ardal Y Fenni. Ar gyfer y gwaith hwn, maent yn paratoi cwestiynau ar gyfer ymwelwyr â'r ysgol ac yn cyfweld ag athrawon a disgyblion. Maent hefyd yn gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain drwy ymweld ag addoldai lleol a darganfod mwy am y crefyddau penodol a'r digwyddiadau crefyddol sy'n digwydd yn eu cymdogaeth. Maent yn cofnodi'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig a chan ddefnyddio ffotograffau digidol a chlipiau fideo.

Defnyddir yr ymchwil hwn i ysgogi'r disgyblion i wneud gwaith ymchwil yn y dyfodol a chaiff ei ddiweddaru o ganlyniad i hynny. Mae'r disgyblion hefyd yn cynllunio cysylltiadau ag ysgol yng Ngogledd Cymru er mwyn iddynt fedru dadansoddi a chymharu profiadau o grefydd mewn lleoliadau gwahanol yng Nghymru.






## Cyfrifoldeb dros amgylchedd Cymru

Bu disgyblion mewn dwy ysgol uwchradd, y naill yn y Gogledd a'r llall yn y De, yn ystyried y berthynas rhwng crefydd a chyfrifoldeb dros yr amgylchedd lleol.

Yn y Gogledd, roedd yr athrawes am i'r disgyblion ddadansoddi goblygiadau stori'r creu yn ôl Iddewon a Christnogion mewn perthynas â'r ffyrdd rydym yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros y byd naturiol ac yn ceisio cynnal harddwch yr hyn a greodd Duw. I'r perwyl hwn, tynnodd yr athrawes luniau o amgylchedd lleol Ynys Môn a oedd yn dangos harddwch naturiol yr ardal yn ogystal â golygfeydd yn cynnwys adeiladau a wnaed gan bobl/mannau ailgylchu. Gallai rhai o'r lleoedd, megis banciau gwydr neu ffermydd gwynt, gael eu hystyried mewn dwy ffordd: nail ai fel dolur llygad neu fel mantais fawr i'r amgylchedd. Rhoes y disgyblion eu barn am yr hyn oedd yn eu tyb nhw o fantais i'w cymuned leol a cheisio penderfynu pa agwedd oedd yn dangos y cysylltiad amlycaf â'r syniadau crefyddol o dan sylw.

Mewn ysgol yn y De, bu'r disgyblion hefyd yn ystyried stori'r creu yn ôl y traddodiad Iddewig/Cristnogol a'i chysylltiadau â chyfrifoldeb y ddynoliaeth dros natur. Bu'r disgyblion yn trafod y difrod amgylcheddol a wnaed gan drychineb y Sea Empress ac effeithiau clwy'r traed a'r genau yn yr ardal. Aed ati wedyn i ystyried y trychinebau amgylcheddol hyn yng nghyd-destun syniadau crefyddol ac i ysgrifennu erthyglau papur newydd dadansoddol yn dangos sut y cafodd Duw ei siomi gan y ddynoliaeth.









## Project traws-gwricwlaidd ar Dylan Thomas

Mewn un ysgol uwchradd arbennig yn Abertawe, roedd disgyblion Blwyddyn 11, ag amrywiaeth eang o anawsterau dysgu ac anableddau, wedi cymryd rhan mewn project dros dymor cyfan fel rhan o'r Project Treftadaeth. Symbyliad gwreiddiol y project oedd erthygl mewn papur newydd lleol yn sôn am ddathliad o fywyd Dylan Thomas.

Rhannodd y disgyblion y wybodaeth a oedd ganddynt am Dylan Thomas a gweld nad oedd ganddynt lawer – felly dyma ddechrau ar y gwaith. Trafodwyd ble y gallent gael gafael ar ragor o wybodaeth, ac awgrymwyd ffynonellau tystiolaeth fel y llyfrgell leol, yr amgueddfa, y Rhyngrwyd, Canolfan Dylan Thomas, a'r llefydd lle y bu'n byw ac yn gweithio.

Dechreuwyd ar y gwaith gyda map o Gymru a daeth y disgyblion o hyd i'r llefydd sy'n gysylltiedig â'r bardd. Ymwelodd y dosbarth â'i hen gartrefi yn ardal Abertawe a hefyd ei ysgolion, y dafarn y byddai'n ei defnyddio a chartref ei rieni, gan gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl am ei fywyd yn y 1950au.

Yn nhŷ Dylan yn Nhalacharn, buont yn gwylio'r fideo am fywyd Dylan, yn edrych ar yr arteffactau yno ac yn casglu rhagor o wybodaeth amdano. Dyma oedd y symbyliad ar gyfer gwaith celf, ysgrifennu a phrojectau Dylunio a Thechnoleg wrth i'r dosbarth adeiladu model o'r cwch-dŷ gyda goleuadau trydan a charpedi a llenni wedi'u gwau a'u creu gan y disgyblion. Tra roeddent yn Nhalacharn, ymwelodd y dosbarth hefyd â'r eglwys lle mae bedd Dylan.

O ran daearyddiaeth a hanes, estynnwyd y gwaith i edrych ar ei ymweliadau ag UDA a'r diddordeb oedd gan yr Arlywydd Carter ynddo. Hefyd trafododd y disgyblion arteffactau eraill o'r 1950au a'u cymharu â'r pethau rydym ni'n eu defnyddio a'r ffordd rydym yn byw heddiw. Er mwyn helpu'r disgyblion, crëwyd llinell amser weledol o amgylch yr ystafell ddosbarth.

Un o uchafbwyntiau'r project oedd ymweliad gan Aeronwy Ellis, merch Dylan Thomas. Gofynnwyd cwestiynau iddi a baratowyd ymlaen llaw, ac yna atebodd hithau yr holl gwestiynau hynny yn unigol ar gardiau post.

Cafodd y project gydnabyddiaeth gan y Project Treftadaeth a bu'n llwyddiant mawr. Llwyddwyd yn sicr i ysbrydoli'r disgyblion. Daeth yr amrywiaeth o weithgareddau â bywyd i'r astudiaeth ac roedd y disgyblion yn cofio'r gwaith am amser hir. Cymerodd pob disgybl ran yn y gweithgareddau ac roedd y staff ac uwch dîm rheoli yr ysgol wedi ymrwymo i'r gwaith. Dyrannwyd tasgau i'r disgyblion yn ôl eu hanghenion unigol gan sicrhau bod pob un ohonynt yn cael llwyddiant. Roedd y gwaith project hwn yn cwmpasu sawl maes o'r cwricwlwm, yn rhoi gwir deimlad o bwrpas i'r disgyblion a'u galluogi i ddysgu llawer am awdur enwog o'u cymuned leol.

## 25 Datblygu’r Cwricwlwm Cymreig mewn dosbarth meithrin







Mewn dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg yng Nghanolbarth Cymru, ceir 20 o blant gyda 10 y cant ohonynt yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae athrawon wedi mabwysiadu agwedd raddol tuag at addysgu’r iaith Gymraeg i’r mwyafrif sy’n siarad Saesneg, gan adeiladu geirfa a chystrawen drwy sgwrsio bob dydd, chwarae rôl, darllen storïau a chanu hwiangerddi Cymraeg, odlau rhif a chaneuon bys. Maent yn defnyddio tapiau fel *Bys a Bawd* a *Hwiangerddi*, ac yn tapio ymateb y plant i storïau ac odlau fel ffordd o asesu eu dealltwriaeth a’u gallu ieithyddol.

Trwy chwarae rôl gellir datblygu iaith ac mae’r plant yn defnyddio’r Tŷ Bach Twt yn rheolaidd, gyda chymorth gan gynorthwywyr sy’n ymestyn eu sgyrsiau a’u gweithgareddau. Ceir ail ardal chwarae rôl hefyd a chaiff thema yr ardal honno ei newid bob tymor. Caffi Sali Mali ydyw ar hyn o bryd a gall y plant ymarfer sgwrsio, ffurfio cwestiynau a rhoi atebion, a dysgu am eiriau amrywiol sy’n gysylltiedig â bwyd. Ar adegau eraill, mae thema’r ardal yn newid, e.e. ysbyty, siop neu beth bynnag sy’n addas i bwnc cyffredinol y tymor. Mae’r plant yn dysgu rhifau, siapiau a lliwiau yn Gymraeg ac mae’r athrawon yn eu hannog i ddefnyddio’r Gymraeg pan fyddant yn cyfarch ei gilydd, yn gofyn cwestiynau ac yn rhoi a derbyn cyfarwyddiadau.

Fel rhan o’u gwaith datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd, mae’r plant yn dysgu am agweddau ar eu cymdogaeth a’u cymuned leol. Mae’r ysgol ger yr Afon Hafren ac mae’r afon yn cynnig ffynhonnell gyfoethog o eirfa yn ymwneud â dŵr a’r amgylchedd. Mae’r plant yn ymweld â’r siop anifeiliaid anwes, y siop lysiau leol, y ganolfan ddydd drws nesaf a’r parc sydd gerllaw. Ceir cysylltiadau â’r gwasanaeth tân, yr heddlu cymunedol, swyddogion diogelwch ar y ffyrdd, nyrs yr ysgol ac ymwelwyr eraill, ac mae’r plant yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y cynhaeaf bob blwyddyn yn y capel Cymraeg lleol. Mae’r ysgol yn cynnal cyngerdd Dewi Sant ac mae’r plant yn gwisgo dillad traddodiadol. Mae telynor lleol wedi arddangos y delyn Gymreig yn yr ysgol er mwyn i’r plant ddod yn gyfarwydd â rhywfaint o gerddoriaeth draddodiadol Cymru. Defnyddia’r ysgol ei chymdogaeth fel adnodd ym mhob un o’r gweithgareddau hyn ac mae’n rhoi gwir deimlad o gymuned i’r plant.

Fel rhan o’u cwricwlwm, mae’r plant yn cymharu Cymru â gwledydd eraill ac yn astudio lleoliadau eraill yn y byd. Yn arbennig, maent yn meddwl am fywyd merch/bachgen yng Nghymru (pa gemau a theganau sydd ganddynt, beth sy’n digwydd iddynt ar ddiwrnod cyffredin) ac yna’n cymharu hyn â bywyd plentyn tebyg mewn gwledydd eraill.




Yn y feithrinfa ddydd breifat hon yn Ne Cymru, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Fodd bynnag, anogir y defnydd o Gymraeg fel ail iaith, yn enwedig gan fod y staff yn ymwybodol iawn o ba mor hawdd y gall plant ifanc iawn ddysgu iaith newydd. Nod penodol y feithrinfa yw rhoi rhywfaint o brofiad o iaith a diwylliant Cymru i'r plant a hyrwyddo ymwybyddiaeth o iaith arall a dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion syml. Mae'r plant yn dysgu rhifau a lliwiau yn Gymraeg a Saesneg, ac mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd wrth siarad â'r plant, wrth drafod y bwrdd tywydd ac yn ystod amser egwyl. Datblygir mathau eraill o eirfa yn y ddwy iaith (er enghraifft, geirfa rhannau o'r corff, enwau ffrwythau a llysiau) a defnyddir enwau Cymraeg i labelu rhai o'r paentiadau a'r gludwaith a arddangosir. Cynhelir dathliadau ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda'r plant yn tynnu lluniau ac yn paentio arwyddluniau cenedlaethol Cymru.


Fel yn yr enghraifft flaenorol, mae'r feithrinfa'n manteisio i'r eithaf ar y gymuned leol i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion o'r byd o'u hamgylch. Mae'r plant hŷn yn ymweld yn aml â'r caeau chwarae lleol, y ganolfan hamdden sydd gerllaw, yr orsaf dân a'r maes awyr rhanbarthol, ac mae pobl leol yn ymweld â'r feithrinfa i siarad â'r plant. Mae hyn yn rhoi gwir deimlad o berthyn i gymuned iddynt, yn ogystal â dealltwriaeth gynyddol o sut mae'r gymuned hon yn gweithio.




# Cydweithio i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig: CA2


27










Bu chwe ysgol gynradd yn y Gogledd-ddwyrain yn gweithio gyda'i gilydd, a chydag AALl Wrecsam a staff o NEWI a Gwasanaeth Llyfrgell yr Ysgolion, i ddatblygu ymagweddau trawsgwricwlaidd at gyflwyno Cwricwlwm Cymreig. Lluniwyd deunyddiau i ategu'r gwaith addysgu a dysgu mewn amrediad o bynciau gan gynnwys celf, daearyddiaeth, hanes, mathemateg, Cymraeg a Saesneg, ac adolygwyd cynlluniau gwaith er mwyn cynnig cyd-destunau Cymreig a deunydd Cymreig.

Enillwyd addysgedau Rhwydweithio Proffesiynol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gan yr athrawon yn y rhwydwaith ysgolion, a defnyddiwyd y rhain i ddarparu amser ar gyfer cyfarfodydd cynllunio ac ar gyfer paratoi adnoddau ar y cyd.


Bu'r meysydd isod yn arbennig o ffrwythlon o ran cynllunio gweithgareddau dysgu ac estyn profiad y disgyblion a'r athrawon.

- Cynnwys deunydd gan awduron sy'n byw yng Nghymru yn y cynlluniau gwaith, a defnyddio cefndir a chyd-destun Cymreig i storïau, nofelau a cherddi. Bu cysylltiadau â Chyngor Llyfrau Cymru ac ymweliadau â Llyfrgell y Sir yn fodd i godi ymwybyddiaeth yr athrawon o'r amrywiaeth o ddeunyddiau sydd ar gael. Maent hefyd wedi defnyddio erthyglau o *English in Wales* a gweithgareddau a awgrymir yng nghyfres *Shared Experiences at Key Stage 2*, y ddau wedi'u cyhoeddi a'u dosbarthu gan Uned Iaith Genedlaethol CBAC (Ffôn: 029 2026 5007; www.cbac.co.uk).
- Gwaith gyda storïwr proffesiynol a fu ar ymweliad i adrodd chwedlau Cymreig traddodiadol ac i gynnal gweithdai gyda disgyblion ym mhob blwyddyn yn CA2.
- Defnyddio mapiau, arteffactau, cofnodion ysgrifenedig a chofnodion rhif o'r ardal leol fel ffynhonnell ar gyfer astudio daearyddiaeth a hanes lleol, ac ar gyfer trin data mewn mathemateg. Bu rhywfaint o'r deunydd hwn hefyd yn ysgogiad ar gyfer creu gwaith celf a barddoniaeth wreiddiol.
- Codi ymwybyddiaeth o feddalwedd TGCh a safweoedd sy'n cynnig adnoddau toreithiog yn ymwneud â diwylliant, treftadaeth, diwydiant ac amgylchedd lleol a chenedlaethol. Mae gwaith ymchwil yn ymwneud â'r adnoddau hyn, a defnydd y disgyblion ohonynt, wedi gwella sgiliau'r disgyblion mewn TGCh, darllen ac ysgrifennu o ran mynegi a threfnu syniadau, a phrosesu a chyflwyno gwybodaeth. Ar yr un pryd, llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiadau cymdeithasol a newidiadau amgylcheddol ac mae ganddynt ymwybyddiaeth lawnach o hunaniaeth a lle.

Crynhowyd manteision cymryd rhan yn y project gan un o'r athrawon a fu'n ymwneud ag ef fel hyn:

> 'Mae cymryd rhan yn y rhwydwaith wedi codi f'ymwybyddiaeth i o bwysigrwydd Cwricwlwm Cymreig ac mor bwysig yw cynnwys hwnnw wrth gynllunio ar gyfer y pynciau craidd a'r pynciau sylfaen yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Dwi wedi dysgu llawer iawn am y llu adnoddau sydd ar gael i'ch helpu i gyflwyno Cwricwlwm Cymreig, fel Gwasanaeth Llyfrgell yr Ysgolion, cyhoeddwyr megis Pont, y teledu a'r radio a TG, a gellir eu rhannu i gyd gyda chydweithwyr yn yr ysgol. Drwy ddatblygu cysylltiadau proffesiynol agosach â chyd-athrawon mewn ysgolion eraill, dwi wedi rhannu arferion da ac unwaith eto, mi fydd y rheiny o fantais yn fy ngwaith addysgu i ac yng ngwaith staff yr ysgol'.

Ceir llyfryn yn disgrifio hyn a phrojectau eraill, *Project Cwricwlwm Cymreig* gan Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI) ac Yr Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru, Bangor a noddir gan HEFCW ar safwe ELWa www.elwa.ac.uk



Extract from Audit

| Subject | How Curriculum Cymreig is Implemented |
| --- | --- |
| English | Reading/studying folk tales and stories from Welsh history; study Welsh authors; use of dialect, colloquial expressions, writing stories and poems and handwriting competition for St David's Day. |
| Maths | Data handling/ Use of the Welsh form of number in data handling, etc. |
| Science | Use of school locality, e.g. pond, Welsh scientists. |
| R.E | Famous Welsh people, eg. Mary Jones, St David, William Morgan and the Bible, Dr William Price; visit local churches, Welsh chapels, mosques and synagogues; visitors from community, Welsh assembly. |
| D.T | Study of structures, eg. Menai Bridge, Second Severn Crossing and buildings; local building structures eg. Penarth Pier, watermills, windmills, machines. Study of Laura Ashley patterns in material, Celtic patterns, mechanisms with a Welsh link eg. dragons, daffodils. |
| | |



SHORT TERM TARGET

To develop the Infant Library provision in the school including supporting Curriculum Cymreig

Time Span: 1 year

Personnel: Mrs S, Mrs J, Headteacher

Monitoring: Mrs S, Mrs J

Strategies to Achieve This

1. Use of schools book fairs to stimulate interest.
2. Extend infant non-fiction library in corridor.
3. Create an attractive Infant Library reading area in the entrance hall.

Criteria for Success

- Wider and more independent use of the Infant reference books in school.
- Stimulating local interest in reading in the Infant school.
- Improved appreciation and enjoyment of Welsh literature.


Resources: [illegible] for creation of entrance hall library area, bookcases, additional books, carpet area – School Budget.

Fel rhan o'u gwaith gydag athrawon, mae rhai AALl wedi cynhyrchu pecynnau adnoddau cynhwysfawr a deunyddiau HMS sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig.

Er enghraifft, mae Bro Morgannwg, fel rhan o'u Gwasanaeth Gwella Ysgolion, wedi cyhoeddi pecyn adnoddau manwl a buddiol iawn ar gyfer ysgolion cynradd. Cafodd y pecynnau eu cynhyrchu gan athrawon yn cydweithio i ymateb i ofynion *Y Wlad sy'n Dysgu* ac i ddogfen ddiweddar Estyn am *Y Cwricwlwm Cymreig*. Mae'r pecyn yn cynnwys adran sy'n manylu ar waith un ysgol wrth gynhyrchu a gweithredu datganiad polisi perthnasol, yn ogystal ag adrannau ar y mwyafrif o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n cynnig amrywiaeth o syniadau a thaflenni gwaith ynghyd â rhestr adnoddau gynhwysfawr.

Mae ESIS wedi cynnal sesiwn HMS yn canolbwyntio ar greu polisi ysgol gyfan ar gyfer Cwricwlwm Cymreig yn yr ysgol uwchradd. Yn ystod y sesiwn edrychwyd ar gynllunio ysgol gyfan, gan gynnwys enghreifftiau o waith mewn AGr, cerddoriaeth a hanes, a chynigiwyd fframwaith ar gyfer archwilio'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm, cwestiynau i adrannau a chofnod adrannol ar gyfer cofnodi gweithgareddau perthnasol.

Mae'n debyg y bydd AALl eraill wedi canolbwyntio ar y Cwricwlwm Cymreig mewn ffyrdd tebyg. Oherwydd hynny, dylai'r ysgolion ymgynghori â gwasanaethau ymgynghorol eu hawdurdod eu hunain ynghylch adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu yn lleol.



ESIS

**Holiadur Adran / Departmental Questionnaire**

| | √/X |
| --- | --- |
| Ydych chi'n ymwybodol bod y Cwricwlwm Cymreig yn orfodol yn y Gofynion Cyffredinol?<br>*Are you aware that the Cwricwlwm Cymreig is mandatory in the Common Requirements?* | |
| Oes polisi adran ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig?<br>*Is there a departmental policy for Y Cwricwlwm Cymreig?* | |
| Ydych chi'n defnyddio arwyddion dwyieithog o fewn yr adran?<br>*Do you use bilingual signs within the department?* | |
| Ydych chi'n defnyddio adnoddau Cymreig?<br>Pa rai?<br>*Do you use resources related to Wales?*<br>*Which ones?* | |
| Ydych chi'n datblygu adnoddau perthnasol sy'n adlewyrchu anghenion y Cwricwlwm Cymreig?<br>Rhowch enghreifftiau.<br>*Do you develop relevant materials which reflect the needs of y Cwricwlwm Cymreig?*<br>*Give examples.* | |
| Ydych chi'n darparu gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig yn eich adran?<br>Rhowch enghreifftiau.<br>*Do you provide extra-curricular activities which contribute to Y Cwricwlwm Cymreig in your department?*<br>*Give examples.* | |
| Ydych chi'n nodi yn eich cynlluniau gwaith y cyfleon i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig?<br>*Do you note in your schemes of work the opportunities for developing Y Cwricwlwm Cymreig?* | |



The Red Dragon's Land United.

Bright yellow daffodils dazzle
On jagged mountains towering proud.
Flocks of sheep, all huddled together,
On high green moors, against the strong bitter wind.
This is the countryside of Wales!
The vast great countryside of Wales!

The sweet melodic tunes of the Welsh harp,
Happy men, women, children dancing full of mirth.
Love spoons crafted by skilful carvers
And the smell of freshly baked Bara Brith
Wafting through small towns.
This is the culture of Wales!
The glorious traditions of Wales!

Owain Glyndwr flying red, white and green,
And battling all odds for his country.
St David the prodigy, kind and loving,
Never sinned all his life but healed.
This is the heritage of Wales!
The magnificent heritage of Wales!

Rhuddlan, Pembroke, Harlech, Caernarvon aswell,
All united together in Wales.
Here we are all equal.
This is Wales united as one,
The great, glorious magnificent land of ...

WALES!

Er mwyn hybu pwysigrwydd y Gymraeg a phwysigrwydd Cwricwlwm Cymreig, mae un ysgol gynradd yng Nghaerdydd wedi defnyddio'r syniadau canlynol.


### Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi

Mae'r ysgol wedi rhoi pwyslais arbennig ar ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cafodd y disgyblion drwy'r ysgol i gyd eu trefnu yn ôl llysoedd gan ennill pwyntiau i'r llys yn ystod y flwyddyn am nifer o bethau, o ymddygiad da i wella'u gwaith a'u hymdrech.

Yn yr wythnosau cyn yr Eisteddfod, cymerodd y plant ran mewn amryw o gystadlaethau: celf, llawysgrifen a 'gwisgo'r llwy bren' (tasg gwaith cartref). Cafodd y rhain eu beirniadu a rhoddwyd pwyntiau, i'w cario ymlaen i'r Eisteddfod ei hun. Cynhaliwyd cyfarfodydd llys bob wythnos i baratoi ar gyfer y cystadlaethau perfformio megis cyd-lefaru, adrodd cerdd Gymraeg a chôr llys. Cynhaliwyd y cystadlaethau eu hunain ar y diwrnod ei hun.

Ar ddiwrnod yr Eisteddfod, bu'r ysgol gyfan yn gwrando wrth i stori draddodiadol gael ei hadrodd, ac yna cafwyd cyfres o eitemau gan ddosbarthiadau CA1. Yn nes ymlaen, bu disgyblion CA2 yn cystadlu yn y gwahanol gystadlaethau gan ennill pwyntiau i'w llys i'w hychwanegu at y rhai a oedd wedi'u crynhoi yn barod. Cyhoeddwyd canlyniadau'r perfformiadau yn ystod y bore a dechreuodd y cyffro godi!

I gloi, cyhoeddwyd canlyniadau'r gystadleuaeth i ysgrifennu cerdd Farddol, o blith disgyblion Blwyddyn 6 yn unig. Bu'r disgyblion hyn yn ysgrifennu barddoniaeth ar thema Gymreig a dewiswyd enillydd a gafodd ei goroni yn Fardd mewn defod arbennig, gyda'r geiriau, y gerddoriaeth a'r dawnsio traddodiadol. Daeth y dathlu i ben drwy gyhoeddi'r canlyniad terfynol a chanu'r Anthem Genedlaethol.




Dyma gyfle gwych nid yn unig i drochi'r disgyblion yn arferion traddodiadol Cymru ond hefyd i hybu'r Gymraeg drwy berfformiadau llafar, celf, cerdd, dawns ac ysgrifennu creadigol.

### Llyfr Mawr Cymru – project ymchwil i Flwyddyn 6

Gan weithio yn unigol ac mewn grwpiau, ymchwiliodd y disgyblion i amrywiol agweddau ar Gymru a 'Chymreictod', drwy ddefnyddio llyfrau cyfeirio, y Rhyngrwyd a ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gasglu eu canfyddiadau mewn llyfr dosbarth, 'Llyfr Mawr Cymru'. Roedd yr agweddau'n cynnwys: bwyd, traddodiadau, atyniadau i ymwelwyr, dillad traddodiadol, iaith, symbolau ac arwyddluniau, chwaraeon, hanes Cymru, achlysuron arbennig, Cymry enwog a'r Anthem Genedlaethol.

Y disgyblion benderfynodd ar drefn y llyfr a hwythau hefyd benderfynodd mai Neil Jenkins a'r ddraig goch fyddai'n arwain y daith dywys, sef arwain y darllenydd drwy'r llyfr. Ar ôl ei gwblhau, roedd y llyfr yn cynnwys testun mewn llawysgrifen, testun wedi'i eirbrosesu, lluniadau, clipiau

celf a ffotograffau. Roedd y testun yn cynnwys cymysgedd o Gymraeg a Saesneg yn ôl yr hyn a oedd yn briodol.

Roedd y project yn ffordd ardderchog o gyfnerthu sgiliau ymchwil a TG, yn ogystal â hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach a sicrach o'r grymoedd sy'n llunio Cymru a'i phobl. Cafodd y disgyblion eu sbarduno a chawsant lawer iawn o fudd o'u gwaith.

### Clwb Cymraeg

Mae'r ysgol yn rhedeg clwb Cymraeg bob wythnos, a diben y clwb yw hybu defnydd a dealltwriaeth o'r Gymraeg wrth gael hwyl a mwynhau'r teimlad o berthyn i glwb. Mae'r clwb yn helpu'r disgyblion i ennyn hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, wrth wella'u hynganiad ac ennill gwell dealltwriaeth o gystrawen a geirfa'r iaith. Mae'r disgyblion yn canu caneuon, yn cynnal cwisiau ac yn chwarae gemau bwrdd, gyda llawer ohonynt yn rhai traddodiadol.

### Clwb Dawnsio Gwerin


Mae'r ysgol hefyd yn rhedeg clwb dawnsio gwerin wythnosol gyda'r disgyblion yn dysgu ac yn perfformio dawnsfeydd traddodiadol Cymreig i gyfeiliant cerddoriaeth werin Gymreig. Maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol ac yn dawnsio hefyd mewn digwyddiadau arbennig yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Mae hyn yn cwmpasu'r agwedd ar ddawns draddodiadol sy'n rhan o gwricwlwm Addysg Gorfforol (dawns) yn yr ysgol. Mae cystadleuaeth dawnsio gwerin hefyd yn rhan o'r dathliadau Gŵyl Dewi a amlinellwyd uchod.



Mae un ysgol gyfun yng nghymoedd De Cymru yn awyddus iawn i gynnwys agweddau ar Gwricwlwm Cymreig yn ei holl weithgareddau. Mae holl ethos yr ysgol yn cyfleu ei safle fel ysgol yng Nghymru: caiff y ffonau eu hateb yn ddwyieithog, mae papur pennawd yr ysgol hefyd yn ddwyieithog ac mae arwyddion y blociau a'r drysau yn ddwyieithog o amgylch yr ysgol. Mae llyfrynnau'r ysgol ar gael yn y ddwy iaith. Mae arddangosfeydd yn cofnodi ac yn dathlu cyrhaeddiad yn Gymraeg ac yn cyflwyno agweddau ar hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru. Mae'r adran Gymraeg yn annog y disgyblion i ymweld â Llangrannog a Nant Gwrtheyrn ac mae Eisteddfod yr ysgol yn ddigwyddiad pwysig, yn cynnwys gwaith y disgyblion mewn amrywiaeth o bynciau.

Yn ddiweddar, cafwyd archwiliad o gyfleoedd i ddatblygu Cwricwlwm Cymreig ar draws y pynciau, a gwelwyd bod y rhan fwyaf o adrannau yn cynnwys gwaith o'r fath yn eu cynlluniau gwaith. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys: ymchwilio i fywydau artistiaid a mathemategwyr o Gymru, astudio gwaith cerddorion, actorion a chynhyrchwyr teledu o Gymru, cynnal arolygon lleol fel rhan o astudiaethau cymdeithaseg a busnes, astudio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwleidyddiaeth a defnyddio hanes a daearyddiaeth y gymdogaeth a Chymru fel adnodd. Mae gweithgareddau o'r fath yn berthnasol ac yn cymell y disgyblion, yn eu helpu i weld eu cymdogaeth a'u gwlad yng nghyd-destun y byd cyfan, a chânt effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad.


Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi ystyried y posibilrwydd o addysgu rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn ychwanegu at ddatblygiad ieithyddol a diwylliannol y disgyblion. Mewn dogfen drafod disgrifiwyd nodau a manteision menter o'r fath ac amlinellwyd manylion ymarferol o ran codi gallu ieithyddol digon o ddysgwyr i safon a fyddai'n eu galluogi i ymdopi ag addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd yn y ddogfen nodwyd y goblygiadau o ran costau ac adnoddau a chyflwynwyd cynllun gweithredu. Mae'r cynllun, bellach, ar waith, a hanes, daearyddiaeth a drama yw'r tri phwnc cyntaf i gael eu cynnwys. Mae'n cynnig profiad ieithyddol i'r disgyblion nad yw ar gael yn unrhyw le arall yn y wlad ac mae wedi creu patrwm newydd o addysg gyfrwng Cymraeg yn y Rhondda ac ar draws De Cymru.



**Audit of aspects of the Curriculum Cymreig across subjects**

| | KS3 | KS4 | KS5 | Extra curricular |
|---|---|---|---|---|
| Welsh | C, L | C, L | C, L | ✓ |
| Geography | E, En | E, En | E, En, C | ✓ |
| History | C, H | C, H, E | C, H | ✓ |
| Science | En | H, E, C | | |
| Politics | | | Po | ✓ |
| Media | | C, E, L | C, E, L | ✓ |
| Music | C, H, L | C, H | | ✓ |
| Sociology | | | E, En, H | ✓ |
| Art | C | C | C | ✓ |
| Catering/CD-Food/Health&Soc Care | | E, En, C | E, En, C | |
| CDT | | | | |
| French/Spanish | C | C, E, En, H | C, E, En | |
| Maths | C, E, En, H | | | |
| Business Studies | | E, H, En, C | E, H, En, C | ✓ |
| English | C, E, H, L | C, E, H, L | C, E, En, H | |

C - Cultural  E - Economic  En - Environmental  H - Historical  L - Linguistic



Mae'r fersiwn cyfredol o'r *Llawlyfr ar gyfer Arolygu Ysgolion*, yn ei arweiniad i arolygwyr ar arolygu agwedd 4.1, Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol, yn rhestru'r nodweddion canlynol sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm Cymreig ac sy'n cynrychioli gwaith o ansawdd da:

- 'Trafoda'r disgyblion eu credoau eu hunain a chredoau pobl eraill a deallant sut y cyfranna'r rhain tuag at hunaniaeth unigol a hunaniaeth grŵp.
- Mae gan y disgyblion wybodaeth helaeth am ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru.
- Edwyn y disgyblion amrywiaeth o gredoau, ymagweddau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol ac maent yn eu deall a'u parchu yn gynyddol.'

Dylai trafodaeth gyda disgyblion, athrawon, rhieni a llywodraethwyr, ddatgelu 'i ba raddau y darpara'r ysgol gwricwlwm sy'n adlewyrchu ieithoedd, diwylliant ac etifeddiaeth Cymru.'

Dylai arsylwi gweithgareddau dysgu ac agweddau eraill ar waith yr ysgol alluogi arolygwyr i farnu:

- 'i ba raddau y mae disgyblion yn adnabod yr amrywiaeth o gredoau, ymagweddau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol;
- y manteision i'r ysgol o, ac ymatebion disgyblion i, weithgareddau a chyfrifoldebau y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan gynnwys cysylltiadau â diwydiant a'r gymuned ehangach.'

Yn yr adran ar agwedd 5.3, Cwricwlwm, un o nodweddion cwricwlwm da yw:

- 'Ceir darpariaeth gydlynus ar gyfer y medrau allweddol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg yn gysylltiedig â gwaith a'r Cwricwlwm Cymreig.'

Mae'r prif ffynhonnell o ran arweiniad ar farnu ansawdd y dimensiwn Cymreig (Cwricwlwm Cymreig) yn ymddangos ym *Mhapur Technegol 9* y Llawlyfr. Mae'n amlinellu'r gofyniad statudol 'i ddarparu cwricwlwm sy'n adlewyrchu ieithoedd, diwylliant ac etifeddiaeth Cymru' ac mae'n rhestru'r nodweddion a'r nodau cyffredinol canlynol:

'Dylai'r Cwricwlwm Cymreig ddarparu gwybodaeth i ddisgyblion am eu hetifeddiaeth a'u diwylliant Cymreig, gwybodaeth am Gymru gyfoes fel gwlad o luosogeddau, ac ymwybyddiaeth o newid a datblygiad.

Gellir trosglwyddo'r nodweddion cyffredinol hyn yn nodau penodol, sef:

- rhoi ymdeimlad o le ac etifeddiaeth i ddisgyblion;
- rhoi ymdeimlad o berthyn i'r disgyblion;
- helpu disgyblion i ddod yn gyfarwydd â'r rhan a chwaraeir gan iaith a llenyddiaeth o fewn hanes a bywyd Cymru;
- rhoi ymwybyddiaeth i'r disgyblion o ran y celfyddydau creadigol a mynegiannol yng Nghymru;
- rhoi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth i'r disgyblion o ran y ffactorau sydd wedi llunio credoau ac arferion crefyddol pobl yng Nghymru;
- rhoi ymwybyddiaeth i'r disgyblion o faterion cyfoes a sut y maent yn effeithio ar Gymru.'

Mae'r arweiniad ar gyfer arolygwyr yn nodi y dylent:

- 'ganolbwyntio ar addysgu a dysgu, ar ddarpariaeth allgyrsiol a rheolaeth a gweinyddiaeth yr ysgol;
- gwerthuso effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith;
- rhoi ystyriaeth i'r rhaglenni astudio arbennig ar gyfer hanes, daearyddiaeth, celf a cherddoriaeth;
- rhoi ystyriaeth i'r graddau y defnyddir pynciau eraill… i adlewyrchu cyd-destun diwylliannol Cymreig priodol;
- arfarnu rôl gweithgareddau allgyrsiol… wrth hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig;
- arfarnu i ba raddau y mae Cyrff Llywodraethol ac Uwch Dimau Rheoli… yn dylanwadu ar bolisïau, trefniadaeth, cynllun y cwricwlwm, a strategaethau addysgu a dysgu;
- arfarnu i ba raddau y mae ysgolion wedi cymryd camau ymarferol i arenwi cysyniadau hanfodol drwy gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau cydlyniaeth, dilyniant a pharhad ym mhrofiad y disgyblion o fewn cyd-destun Cymreig priodol;
- ystyried i ba raddau y mae ysgolion yn defnyddio'r Cwricwlwm Cymreig fel cysyniad deinamig i lywio a chyfoethogi nid yn unig eu disgyblion ond hefyd y gymuned ehangach.'

Mae *Newyddlen* Estyn, Rhif 12/00, mis Medi 2000, yn rhoi rhagor o wybodaeth ac arweiniad i arolygwyr am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a dwyieithrwydd â'r Cwricwlwm Cymreig. Mae'n atgoffa arolygwyr o natur statudol y Cwricwlwm Cymreig ac mae'n nodi:

'Nid yw'r Cwricwlwm Cymreig yn gyfyngedig i wersi ar yr amserlen ond dylai dreiddio i fywyd yr ysgol gyfan.'

Amlinellir y sefyllfa gyfredol mewn ysgolion a'r safonau a gyflawnir ac, yn ôl y ddogfen, lle bo'r ddarpariaeth yn anfoddhaol, byddai'n fuddiol:

- 'sicrhau bod ymagwedd gyson tuag at Y Cwricwlwm Cymreig ar draws yr ysgol yn ei holl agweddau;
- sicrhau bod gwaith cynllunio ym mhob pwnc yn dangos yn glir sut a ble y caiff elfennau'r Cwricwlwm Cymreig eu haddysgu;
- monitro ac arfarnu'r Cwricwlwm Cymreig mewn ffordd systemataidd er mwyn nodi'r meysydd y dylid eu gwella.'

Ceir dadansoddiad mwy diweddar o safle'r Cwricwlwm Cymreig mewn ysgolion yn *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2001–2002*, Estyn, 2003. Yn ôl y Prif Arolygydd:

'Mae ysgolion yn amrywio'n fawr o ran sylw y maen nhw'n ei roi i'r Cwricwlwm Cymreig. Yn yr achosion gorau, mae cynlluniau ysgol gyfan sy'n gofalu bod y Cwricwlwm Cymreig yn rhan bwysig o fywyd ysgol, a'i fod yn chwarae rhan bwysig ym mhob pwnc. Mewn rhai ysgolion, mae'r Cwricwlwm Cymreig yn rhan o bolisi ehangach ar ymwybyddiaeth Ewropeaidd.

Mewn rhai ysgolion, does dim digon sy'n amlwg Gymreig ynghylch y cwricwlwm, neu sy'n dangos bod yr ysgol yng Nghymru.'

## Y Fframwaith Arolygu Cyffredin Newydd

Cyflwynir Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn ar gyfer arolygu ysgolion o fis Medi 2004. Mae'r fframwaith hwn yn cwmpasu arolygiadau ar draws sawl sector yng Nghymru ac mae'n cynnwys addysg bellach, hyfforddiant wedi ei seilio ar waith, hyfforddiant cychwynnol i athrawon, addysg i oedolion, gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau cymorth i ieuenctid yn ogystal ag ysgolion. Mae'r fframwaith ar gael ar safwe Estyn.

Seilir y fframwaith ar saith cwestiwn allweddol:

1. Pa mor dda yw cyraeddiadau'r dysgwyr?
2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?
3. Pa mor dda y mae profiadau dysgu'n diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?
4. Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?
5. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?
6. Pa mor dda yw'r arweinwyr a rheolwyr wrth arfarnu a gwella ansawdd a safonau?
7. Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Mae lle amlwg gan y Cwricwlwm Cymreig yng nghwestiwn allweddol 3 ('Pa mor dda y mae profiadau dysgu'n diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?'). Wrth ateb y cwestiwn allweddol hwn, mae'n rhaid i arolygwyr werthuso a chyflwyno adroddiad yn nodi i ba raddau y mae'r profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach. Wrth fynegi eu barn, gofynnir i'r arolygwyr ystyried, ymysg pethau eraill, i ba raddau y mae'r profiadau dysgu yn 'hyrwyddo medrau dwyieithrwydd disgyblion ac yn adlewyrchu ieithoedd a diwylliant Cymru'.

Mae arweiniad Estyn yn debygol o atgoffa arolygwyr y caiff y Cwricwlwm Cymreig ei gynnwys yng ngofynion cyffredin gorchmynion pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol, a dynodir y gofynion yn y rhaglenni astudio. Bydd Estyn yn disgwyl i arolygwyr farnu:

'p'un a yw'r gofynion hyn yn cael eu diwallu ai peidio ac i ba raddau y maen nhw'n cyfrannu tuag at ddatblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.'

## Datblygu Cwricwlwm Cymreig yn eich ysgol

Gall y llyfryn hwn helpu ysgolion i sefydlu a datblygu Cwricwlwm Cymreig. Isod ceir awgrymiadau ynghylch sut y gellir defnyddio'r canllawiau hyn.

### Drwy nodi cydlynydd ysgol gyfan ar gyfer Cwricwlwm Cymreig

Ym Mhrif Ganfyddiadau eu hadroddiad diweddar ar Y Cwricwlwm Cymreig, nododd Estyn:

> 'Mae gan Y Cwricwlwm Cymreig broffil uchel yn aml o fewn bywyd yr ysgol pan gydlynir yr agwedd hon gan aelod o'r uwch dîm rheoli.'

Maent hefyd yn nodi, mewn ysgolion lle bydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei roi i'r arweinydd pwnc sy'n gyfrifol am y Gymraeg o fewn yr ysgol, mae yna berygl y bydd athrawon eraill yn ystyried bod Cwricwlwm Cymreig yn ymwneud yn bennaf â'r iaith Gymraeg. O ganlyniad, ni fydd llawer o athrawon yn ymchwilio'n llawn i botensial y cwricwlwm ehangach i adlewyrchu'r dimensiwn Cymreig.

Dylid ystyried y sylwadau hyn wrth nodi cydlynydd ar gyfer Cwricwlwm Cymreig.

Mae'n bwysig mai rôl arwain a rheoli sydd gan y cydlynydd. Ni ddylai person o'r fath fod yn gyfrifol am weithredu Cwricwlwm Cymreig, ond am:

- gynorthwyo ac ysgogi athrawon eraill
- cydlynu ymagwedd ysgol gyfan
- sicrhau bod yr ysgol yn manteisio i'r eithaf ar bob cyswllt cymunedol posibl
- bod yn ganolog i drafodaethau, newidiadau a chyngor o fewn yr ysgol o ran materion sy'n ymwneud â Chwricwlwm Cymreig
- cysylltu â sefydliadau eraill lle ceir datblygiadau cymharol o ran Cwricwlwm Cymreig.

### Drwy archwilio'r ddarpariaeth bresennol

Gellid cynnal archwiliad o'r fath mewn dwy ran: un gan aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn edrych yn benodol ar agweddau ysgol gyfan a materion rheoli; y llall gan arweinwyr pwnc/adrannau, ynghyd â'r holl athrawon, yn canolbwyntio ar sut ac i ba raddau y caiff cyfleoedd ar gyfer Cwricwlwm Cymreig eu cynllunio o fewn cynlluniau gwaith ar gyfer pob pwnc. Yn y modd yma, bydd pob aelod o staff yn cymryd rhan yn y drafodaeth, dylai amrywiaeth o bersbectifau a syniadau ymddangos a bydd yr ysgol mewn sefyllfa dda i fwrw ati i ddatblygu'r dimensiwn Cymreig ymhellach.

### Cwestiynau y gallai'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) eu gofyn:

| | |
|---|---|
| A ydy Cwricwlwm Cymreig yn rhan o nodau ac amcanion yr ysgol? | |
| A oes gennym bolisi effeithiol ar gyfer hyrwyddo Cwricwlwm Cymreig? | Os felly, pa mor aml y dylid ei adolygu a phryd y dylid ei adolygu nesaf? Os na, pa broses y dylid ei dilyn ar gyfer llunio polisi o'r fath? Aelod o'r UDRh? Gweithgor gyda chynrychiolaeth traws-bynciol? Pwyllgor gwirfoddol? Arall? |
| A yw'r athrawon yn deall ac yn cefnogi'r syniad o ddatblygu a gweithredu Cwricwlwm Cymreig? A ydynt yn glir ynghylch ei ystyr, ei werth a'i bwrpas? | Os na, pa hyfforddiant allai helpu? Sut y gellid trefnu hyn? Pwy fydd yn ei ddarparu? A all yr AALl helpu? |
| A yw cynlluniau gwaith pynciau yn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu Cwricwlwm Cymreig – yn unol â symbolau'r Gofynion Cyffredin? Trwy gyfleoedd eraill? | Os na, pa amserlen y dylid cytuno arni ar gyfer adolygu a diwygio priodol? A ddylid gwneud hyn ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod addysgu? Pa adnoddau sydd ar gael? |
| A oes dilyniant yn y gwaith o addysgu a dysgu am Gwricwlwm Cymreig? | Pwy sydd â'r trosolwg? A rennir gwybodaeth ar bob pwynt trosglwyddo – o ddosbarth i ddosbarth, rhwng cyfnodau allweddol, ar draws camau? |
| A gaiff effaith Cwricwlwm Cymreig ar safonau ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd? | Os na, sut y gellid cyflawni hyn? Cynllun datblygu? Meini prawf llwyddiant? |
| A oes gan yr ysgol amrywiaeth ddigonol o adnoddau priodol – llyfrau, deunydd clyweledol, TGCh, adnoddau yn y gymuned a thu hwnt? | A yw cynllunio ar gyfer darpariaeth ychwanegol ar gyfer Cwricwlwm Cymreig yn ymddangos yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol? |
| A oes amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol wedi'u cynllunio i ategu Cwricwlwm Cymreig – ymweliadau, ymwelwyr, profiadau preswyl, clybiau, cystadlaethau, ac ati? | Os na, pwy sydd â'r amser/arbenigedd i ymchwilio i bosibiliadau eraill? Pwy fydd yn monitro cysondeb y rhaglen? |
| A yw arweiniad ar gyfer Cwricwlwm Cymreig yn rhan o'r broses sefydlu ANT ac athrawon sy'n newydd i'r ysgol, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi dod o'r tu allan i Gymru neu a hyfforddwyd y tu allan i Gymru? | Os na, sut a phryd y gellid trefnu hyn? |
| A oes gan aelod o'r Corff Llywodraethol gyfrifoldeb dros Cwricwlwm Cymreig? | Os na, a ellid penodi un? |
| A oes gan yr ysgol gefnogaeth y gymuned leol mewn perthynas â nodau ac amcanion ei darpariaeth o Gwricwlwm Cymreig? | Os na, beth fyddai'r ffordd orau o gyflawni hyn? |
| A yw'r ysgol yn cydnabod/cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol, e.e. eisteddfodau, dathliadau cenedlaethol, etholiadau'r Cynulliad, ac ati? | Os na, pwy allai drefnu cyfranogiad o'r fath? |
| A yw ethos yr ysgol yn adlewyrchu Cwricwlwm Cymreig? | Am awgrymiadau, gweler y rhestr wirio ar dudalen 60. |

## Cwestiynau ar gyfer pynciau/adrannau:

| | |
|---|---|
| **I ba raddau y mae Cwricwlwm Cymreig yn rhan o'r gwaith? A yw cynlluniau gwaith yn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu Cwricwlwm Cymreig – yn ôl symbolau'r Gofynion Cyffredin yn y Gorchmynion? Mewn meysydd eraill, drwy'r cyd-destun a ddewiswyd?** | A ddylem ddefnyddio symbolau ACCAC yng nghynlluniau gwaith yr ysgol? Pryd y gellir neilltuo amser er mwyn cael trafodaeth lawn am gyd-destunau priodol ar gyfer datblygu Cwricwlwm Cymreig? |
| **A yw cynllunio tymor hir, canolig a byr bob amser yn cynnwys cyfeiriad at Gwricwlwm Cymreig?** | A ddylid diwygio taflenni cynllunio'r ysgol i gynnwys cyfeiriad o'r fath? |
| **A yw parhad a dilyniant wedi'i gynnwys? A ydym yn rhannu gwybodaeth am yr hyn a wnaed gyda'r athro/athrawes dosbarth/cydlynydd cyfnod allweddol/ysgol nesaf wrth i ni addysgu? A ydym yn adeiladu ar brofiad blaenorol?** | Os na, pa weithdrefnau y gellid eu mabwysiadu o fewn ein hysgol? Ar bwyntiau trawsnewid? |
| **Sut y cofnodir y wybodaeth hon?** | A oes angen ffurflen at y diben hwn? |
| **Pa gyfleoedd traws-gwricwlaidd a nodwyd a fyddai'n hyrwyddo Cwricwlwm Cymreig?** | |
| **Pa adnoddau sydd gennym/sydd eu hangen arnom i ddatblygu Cwricwlwm Cymreig?** | O fewn yr ysgol?<br>Y tu allan i'r ysgol? |
| **Pa weithgareddau traws-gwricwlaidd a gynigir i'r disgyblion a fydd yn helpu hyrwyddo Cwricwlwm Cymreig?** | Clybiau, cystadlaethau, profiadau preswyl, cysylltiadau ag ysgolion eraill, efallai gan ddefnyddio TGCh? |
| **A yw deunydd arddangos yn adlewyrchu Cwricwlwm Cymreig, gyda chydbwysedd priodol rhwng y traddodiadol a'r cyfoes?** | Os na, sut y gellir cyflawni hyn? |

Pan fydd archwiliad wedi'i gynnal, bydd yr ysgol mewn sefyllfa dda i ddechrau ymdrin ag unrhyw bryderon ac i gynllunio'n briodol ar gyfer datblygiad pellach.

## Drwy sicrhau bod ethos yr ysgol yn adlewyrchu Cwricwlwm Cymreig

Gallai'r rhestr wirio ganlynol fod yn ddefnyddiol, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

- A geir defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol – mewn sgwrs, yn ystod cofrestru, yn ystod gwersi?
- A oes arwyddion a hysbysiadau dwyieithog yn yr ysgol?
- A ddefnyddir y Gymraeg ar gyfer pob gohebiaeth â rhieni, i hysbysebu digwyddiadau yn yr ysgol, ac ati?
- A atebir galwadau ffôn i'r ysgol yn ddwyieithog?
- A gyferchir ymwelwyr yn ddwyieithog?
- Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a geir cyfraniad Cymraeg gan staff a disgyblion yn y gwasanaeth?
- A yw papur pennawd yr ysgol yn ddwyieithog?
- A wna'r ysgol unrhyw ymdrech i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg ar gyfer rhieni a fyddai'n gwerthfawrogi dysgu ar yr un pryd â'u plant o bosibl?
- A yw'r ysgol yn chwifio baner Cymru?
- A wahoddir enwogion Cymru i'r ysgol i rannu eu profiadau?
- A yw'r arddangosfeydd o amgylch yr ysgol yn adlewyrchu pob agwedd ar Gwricwlwm Cymreig – traddodiadol a chyfoes, lleol a chenedlaethol?
- A fyddai ymwelydd sy'n dod i'r ysgol yn gwybod mai ysgol yng Nghymru yw hon?

Mae'r safweoedd canlynol yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau ac adnoddau i ategu Cwricwlwm Cymreig. Mae llawer o'r safweoedd hyn yn cynnwys cysylltiadau â safweoedd eraill.

ACCAC, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
www.accac.org.uk

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
www.estyn.gov.uk

## Safweoedd sy'n darparu deunyddiau Cymraeg neu ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) o ddiddordeb addysgol

Drws – safweoedd addysgol Cymraeg a dwyieithog
www.drws.co.uk

Cyngor Llyfrau Cymru
www.cllc.org.uk

gwales.com – gwasanaeth chwilio ac archebu llyfrau Cymraeg a Chymreig
www.gwales.com

Gwasg Gomer – llyfrau o Gymru, am Gymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg
www.gomer.co.uk

Seren – cyhoeddwr annibynol sy'n arbenigo mewn llenyddiaeth cyfrwng Saesneg o Gymru
www.seren-books.com

Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru
www.cbac.co.uk

Grid Dysgu Cenedlaethol Cymru – mynedfa i adnoddau addysgu a dysgu ar-lein
www.ngflcymru.org.uk

# Atodiad 2: Archwiliad o gyfeiriadau penodol at y Cwricwlwm Cymreig

Ar gyfer pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac ar gyfer Addysg Grefyddol, ABCh, AChG, AGG a *Chanlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant cyn Oedran Addysg Orfodol*, ceir archwiliad o gyfeiriadau penodol ar safwe ACCAC www.accac.org.uk

Mae'r archwiliadau hyn yn dangos y datganiadau neu'r adrannau hynny o raglen astudio sydd wedi'u cysylltu'n benodol â'r gwaith o ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig.

# Atodiad 3: Deunyddiau a gomisiynwyd gan ACCAC ar gyfer yr ystafell ddosbarth

Ceir rhestr lawn o'r deunyddiau i ddisgyblion a gomisiynwyd gan ACCAC i helpu cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig ar safwe ACCAC. Nid yw'r rhestr yn cynnwys deunyddiau ar gyfer addysgu Cymraeg fel pwnc.

Mae'r deunyddiau i gyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gellir eu harchebu a'u prynu yn y mwyafrif o siopau llyfrau Cymru, yn uniongyrchol oddi wrth y cyhoeddwyr, neu drwy www.gwales.com

## Gwahoddiad i gyfrannu at y broses adnabod anghenion

Un o bum amcan ACCAC yw:

> 'Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog o safon uchel i gefnogi addysgu'r Gymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar y cwricwlwm sy'n benodol i Gymru.'

Dechreuodd yr Awdurdod ar ei waith yn y maes hwn yn 1995, ac yn ystod y saith mlynedd rhwng 1995 a 2002 mae wedi comisiynu dros 230 o brojectau a 1,500 o deitlau. Mae'r rhain yn cynnwys y teitlau a gyfeirir atynt uchod sy'n ategu'r Cwricwlwm Cymreig. Disgrifir y gwaith comisiynu yn llawn yn y cyhoeddiad *Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog 2003/04–2005/06*.

Un o'r camau cyntaf hanfodol o ran y gwaith comisiynu yw nodi a blaenoriaethu'r deunyddiau i gael eu comisiynu. Mae paneli ymgynghori sy'n cyfarfod bob blwyddyn yn rhoi cyngor manwl ar y deunyddiau y mae eu hangen ym mhob pwnc. Mae'r paneli ymgynghori hyn yn cynnwys hyd at 12 o aelodau, gyda chynrychiolaeth gyfartal o'r sectorau cynradd ac uwchradd, boed yn athrawon a enwebwyd neu'n bobl broffesiynol eraill ag arbenigedd priodol. Cyflwynir pob cais ar gyfer deunyddiau a dderbyniwyd gan athrawon ac eraill, gerbron y paneli hyn.

Fe'ch gwahoddir felly i gyfrannu at y broses o adnabod anghenion drwy anfon awgrymiadau ar gyfer deunyddiau y gellid eu comisiynu, naill ai drwy lythyr at Reolwr Comisiynu'r Awdurdod, neu drwy e-bost at jlloyd@accac.org.uk Fel arfer mae'r paneli'n cwrdd yn ystod yr Hydref, felly tymor yr haf yw'r adeg orau i anfon awgrymiadau o'r fath.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai ACCAC ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion a chyrff eraill a gynorthwyodd wrth ddatblygu'r canllawiau hyn drwy gynnig astudiaethau achos, ffotograffau ac adnoddau a sylwadau ar y drafft ymgynghori.

## Mae ACCAC yn ddiolchgar i:

Gwasg Gomer am ganiatâd i ddefnyddio cloriau
*The Blue Man & other stories from Wales,* gol. Christine Evans
Llawlyfr yr Athrawon, *The Blue Man & other stories from Wales*, Christine Evans a Mairwen Jones
*The Hare & other stories*, Catherine Fisher
*The Poet's House*, gol. Jude Brigley
*The Animal Wall & other poems*, Gillian Clarke

Uned Iaith Genedlaethol, CBAC am ganiatâd i ddefnyddio cloriau
*Shared Experiences at Key Stage 2*
Gweithgareddau wedi eu seilio ar *Ghostly Riders* gan Phil Carradice
Gweithgareddau wedi eu seilio ar *Sion and the Bargain Bee* gan Jenny Sullivan
Cylchlythyr *English in Wales* Haf 2003

*South Wales Echo* am ganiatâd i gynnwys atgynhyrchiad o'r erthygl 'Pupils to help raise roof of stadium'.